# Cronfa Dreftadaeth y Loteri: Prosiect Rhif OH-17-03044

# ABERYSTWYTH A RHYFEL:
# PROFIAD, EFFAITH, ETIFEDDIAETH

# 1914-1919

## ADRODDIAD TERFYNOL: Medi 2019

**Cynnwys**


**Adran A: Y prosiect**

- **Manylion y prosiect**
- **Y dibenion a gymeradwywyd**
- **Cyllideb y prosiect**
- **Rheolaeth y prosiect**

**Adran B: Cyhoeddusrwydd a marchnata**

- **Y cyhoeddusrwydd cychwynnol**
- **Sylw yn y cyfryngau**
- **Presenoldeb yn y cyfryngau cymdeithasol**

**Adran C: Cyflawni'r prosiect**

- **Y gwirfoddolwyr**
- **Y deunyddiau a'r arteffactau a roddwyd ar fenthyg i'r prosiect**
- **Y dibenion a gymeradwywyd**
- **Yr allbynnau perthnasol**
- **Gweithgareddau ychwanegol**

**Adran D: Crynodeb a chasgliadau**

- **Crynodeb o'r deilliannau a'r cyraeddiadau**
- **Mesur ein prosiect yn erbyn deilliannau'r HLF**
- **Tystebau gan y gwirfoddolwyr**

# ADRAN A: Y PROSIECT

## <u>A 1 Manylion y prosiect</u>

Bu'r prosiect **Aberystwyth a Rhyfel: Profiad, Effaith, ETIFEDDIAETH, 1914-1919**, yn edrych ar effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar bobl a chymunedau Aberystwyth, tref dwristaidd fach ar lannau'r Canolbarth sydd hefyd yn gartref i Brifysgol Aberystwyth a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a hynny drwy gydymdrechion gwirfoddolwyr, archifau lleol, y brifysgol, cymdeithasau hanes lleol, ysgolion, grwpiau perfformio a grwpiau celfyddydau. Gyda'i gilydd, bu'r grwpiau hyn yn ymwneud â chofnodion rhyfel, llythyrau, papurau newydd, ffotograffau, cerddoriaeth, cofebau rhyfel a hanesion personol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Archifau Ceredigion, Amgueddfa Ceredigion, Llyfrgell Prifysgol Aberystwyth a mannau cyhoeddus yn yr ardal. Llwyddodd dros 30 o wirfoddolwyr i gasglu a dehongli'r hanesion cymunedol hyn mewn gweithgareddau, arddangosfeydd, perfformiadau ac adnoddau ar-lein hygyrch.

### A 1.1 Y cefndir

Gan fod canmlwyddiant diwedd y Rhyfel yn digwydd ym mis Tachwedd 2018, roedd yna deimlad bod hwn yn gyfle priodol i gynnal prosiect dan arweiniad y gymuned a fyddai'n archwilio, yn dehongli ac yn cadw straeon cymuned Aberystwyth fel yr oedd yng nghyfnod y rhyfel gan mlynedd yn ôl. Penderfynwyd gwneud cais i raglen 'Ein Treftadaeth' o eiddo Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn hytrach na'u rhaglen Rhyfel Byd Cyntaf, er mwyn pwysleisio gwerth treftadaeth ehangach y prosiect i'r gwirfoddolwyr ac i'r gymuned y tu hwnt i archwilio'r profiad o ryfel ei hun yn unig.

### A 1.2 Y cais

Ar ôl proses ymgynghori a oedd yn cynnwys sefydliadau lleol a grwpiau cymunedol gan gynnwys Archifau Ceredigion, Amgueddfa Ceredigion, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Canolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth a Grŵp Hanes a Threftadaeth Penparcau, cafodd cais ei gyflwyno i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ym mis Medi 2017.[1] Cawsom ganiatâd i ddechrau ym mis Tachwedd 2017 ond, oherwydd digwyddiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, bu'n amhosibl dechrau'r prosiect yn iawn tan wanwyn 2018. Oherwydd y dechrau hwyr, gwnaethom gais llwyddiannus yn gynnar yn haf 2019 am estyniad i'r prosiect hyd at ddiwedd mis Medi 2019; golygai hynny y byddai'r prosiect yn rhedeg am y 18 mis a fwriadwyd yn wreiddiol.

### A 1.3 Y rhesymwaith

Rhesymwaith sylfaenol ein prosiect, fel y'i mynegwyd yn y sesiynau ymgynghori a gynhaliwyd, oedd bod yna rwystrau sylweddol yn atal pobl leol rhag ymgysylltu â'u treftadaeth. Cawsom wybod bod gan bobl yr ardal ddiffyg gwybodaeth am eu hanes lleol a sut i gael gafael arno, a diffyg sgiliau a hyder wrth gyrchu a dehongli'r dreftadaeth honno. Roedd yna ddiffyg cyfle hefyd, a diffyg uniaethu â grwpiau tebyg y gellid rhannu'r wybodaeth a'r gwersi gyda nhw, mewn ffyrdd traddodiadol ac anhraddodiadol.

---

[1]Cyflwynwyd fersiwn cynharach o'r cynnig hwn i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ym mis Mawrth 2017. Ar ôl adborth gan y Gronfa, ym mis Medi 2017 ailgyflwynwyd cynnig a oedd yn gwella'n arwyddocaol ar yr elfennau o'r prosiect a oedd yn ymwneud â'r gymuned.

Roeddem yn awyddus i ymateb i'r anghenion hyn â gweithgareddau a fyddai'n cynnwys gweithdai hyfforddi, mynediad dan arweiniad i'r archifau lleol ac ymchwil i hanes lleol, celf gymunedol, perfformiadau, ac arddangosfeydd, i ystod mor eang â phosibl o wirfoddolwyr lleol, gan greu etifeddiaeth at y dyfodol. Roeddem yn awyddus i sefydlu cydweithrediad â gwahanol sefydliadau treftadaeth, celf a chymuned i gyfuno adnoddau, rhaglennu digwyddiadau ar y cyd, a sicrhau ein bod yn ymateb i anghenion y gymuned.

Yn olaf, roeddem am gynnal prosiect o dan arweiniad y gymuned a fyddai'n cynnig cyfle i bobl o bob lliw a llun gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau, gweithdai adeiladu sgiliau, gwaith gwirfoddol a darganfod y gorffennol fel grŵp, er mwyn galluogi pobl i ymwneud yn emosiynol â'u treftadaeth, a'u helpu i gysylltu'n uniongyrchol ag effaith ac etifeddiaeth y Rhyfel Mawr.

I'r perwyl hwnnw, fe fydden ni'n gwneud y canlynol:

- Penodi Cydlynydd Prosiect a Swyddog Ymgysylltu Cymunedol (PCO) i gydlynu'r prosiect a rheoli'r gyllideb.
- Sefydlu Grŵp Llywio i'r Prosiect (PSG) yn cynrychioli rhanddeiliaid allweddol yn y prosiect i fonitro ac adolygu cynnydd y prosiect. Arweinydd y Prosiect (PL) a fyddai'n cadeirio'r grŵp a'r PCO fyddai ysgrifennydd y grŵp.
- Adnabod, recriwtio a hyfforddi tua 30 o wirfoddolwyr i wneud gwaith ymchwil, ysgrifennu blogiadau, helpu gyda digwyddiadau a'u harwain etc.

## A 2 Y dibenion a gymeradwywyd

**A 2.1** Dyma'r **dibenion a gymeradwywyd** ar gyfer y Prosiect:

- Pedwar gweithdy hyfforddi mewn sgiliau ymchwilio a digideiddio i wirfoddolwyr.
- Pedwar gweithdy i ysgolion gyda disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 o ysgolion uwchradd Penglais a Phenweddig
- Tri chyflwyniad o ganfyddiadau i grwpiau cymunedol lleol
- Pedwar diwrnod o weithdai celfyddydau cymunedol yn cael eu rhedeg gan artist lleol yng Nghanolfan Gelfyddydau Aberystwyth
- Gweithdy drama a pherfformiad drama wedi'i seilio ar lythyrau 'Dot a Billy'[2] gan Ganolfan Celfyddydau Aberystwyth.
- 'The Fox', drama wedi'i seilio ar stori D.H. Lawrence sydd wedi'i gosod ym 1918 ynghylch y cyfnod ar ôl y Rhyfel, yn cael ei pherfformio gan Grŵp Theatr Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth (cyhyd ag y ceid cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru)
- Dau ddangosiad ffilm yn agored i bawb yn awditoriwm theatr hanesyddol Amgueddfa Ceredigion

[2] Gohebiaeth oedd llythyrau 'Dot a Billy' rhwng Agnes Dorothy French, myfyriwr israddedig yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, fel yr oedd ar y pryd, a Stanley Wilbrahim Burditt, Capten yng Nghatrawd Sir Gaer, a gyfarfu â'i gilydd yn Aberystwyth yn haf 1915 gan ohebu tan fis Hydref 1917 pan gafodd Billy ei ladd yn Ffrainc, ychydig ar ôl iddyn nhw ddyweddïo. Cafodd y llythyrau hyn – 170 ohonyn nhw – eu rhoi ar fenthyg i'r prosiect gan Mrs Jane Bradly ar ran Mr Tom James, mab ffrind agos i Dot, ac fe fuon nhw'n adnoddau pwysig ar gyfer ein cais gwreiddiol. Er hynny, doedden ni ddim yn disgwyl bryd hynny y byddai'r llythyrau yn elfen mor allweddol o ran allbynnau ac effaith y prosiect, fel y gwelir drwy'r Adroddiad hwn i gyd.

- Pum taith dywys ryngweithiol ddwyieithog o amgylch Aberystwyth, wedi'u seilio ar fenter mapio'r prosiect, ac yn dilyn llwybr yn nodi cartrefi cyn wirfoddolwyr a chyn filwyr gorfod y Rhyfel Byd Cyntaf, dan arweiniad gwirfoddolwyr yn chwarae rôl
- Cyngerdd yn cyflwyno *ensembles* o'r ysgolion lleol ac o blith ieuenctid y sir i gerddoriaeth y Rhyfel Byd Cyntaf (Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Ceredigion)
- Arddangosfa chwe-wythnos o'r prosiect celf cymunedol uchod, yng Nghaffi Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth
- Archifo deunyddiau drwy Archifau Ceredigion, Casgliad y Werin, a Phrifysgol Aberystwyth
- Darpariaeth Gymraeg drwy'r prosiect i gyd
- Cydnabyddiaeth amlwg i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar y safleoedd, ar-lein ac yn yr holl weithgareddau, yn ogystal â defnyddio'r prosiect i gydnabod chwaraewyr y Loteri Genedlaethol a diolch iddyn nhw.

### A 2.2 Allbynnau perthynol a nodwyd yng nghais y prosiect

Cafodd dau allbwn perthynol eu nodi hefyd yng nghais y prosiect, ac roedd y rhain yn sail i'r dibenion a gymeradwywyd, ond heb gael eu rhestru'n ffurfiol fel dibenion a gymeradwywyd. Roedd y rhain fel a ganlyn, ac fe'u trafodir ymhellach yn adran C3 isod:

- Blog prosiect, yn cynnwys blogiadau gan wirfoddolwyr ar sail eu gwaith ymchwil eu hunain ar gyfer y prosiect.
- Adnodd ar-lein ar ffurf map digidol yn nodi pawb o Aberystwyth a fu'n gwasanaethu, gyda'u cyfeiriadau a'u manylion milwrol a phersonol eraill (h.y. menter mapio'r prosiect y soniwyd amdani uchod).

### A 2.3 Gweithgareddau ychwanegol heb eu nodi'n wreiddiol yng nghais y prosiect

Wrth i'r prosiect ddatblygu, fe gododd sawl cyfle ychwanegol am weithgareddau cymunedol. Roedd ein cyfraniadau arfaethedig at y rhain yn cyd-fynd â chylch gwaith ein cyllideb, ac roedd y PL a'r PCO, gyda chefnogaeth grŵp llywio'r prosiect, yn teimlo y byddai cymryd rhan ynddynt yn dod o dan gylch gwaith sylfaenol y prosiect ac y byddent yn datblygu nodau'r prosiect a'r ysbryd a'r estyn allan cymunedol roedd y prosiect yn ceisio eu meithrin. Roedd y gweithgareddau hyn fel a ganlyn, ac fe'u trafodir ymhellach yn adran C4 isod:

- Sesiynau galw heibio i wirfoddolwyr
- Darlith ar ffoaduriaid o wlad Belg gan y Dr Rhian Davies
- Te Cadoediad Ysgol Penglais
- Gwasanaeth cadoediad a The Cymunedol Eglwys Sant Mihangel
- Digwyddiad cadoediad 'Tudalennau'r Môr'
- Noddi Gŵyl Gregynog
- Dathliad a digwyddiad 'diolch' ar ddiwedd y prosiect

## A 3 Cyllideb y Prosiect

Cais am £50,600 oedd ein cais gwreiddiol i'r HLF, ar sail y nodau uchod. Byddai'r gyllideb honno'n cynnwys costau recriwtio gwirfoddolwyr; penodiad, cyflog a threuliau swyddog y prosiect; arian tuag at hyfforddiant a threuliau gwirfoddolwyr; costau hyrwyddo a marchnata; cyllidebau ar gyfer digwyddiadau penodol; a chostau gwerthuso ac adroddiad terfynol.

### A 3.1 Arian cyfatebol

Yn unol â gofynion yr HLF, cafodd ein cyllideb ei threfnu ar y sail y câi arian cyfatebol ei gyfrannu i'r prosiect, drwy fwrsariaethau allanol i wirfoddolwyr, a chyllid arall, gan gynnwys £5,000 gan Gyngor Celfyddydau Cymru at gynhyrchu a pherfformio drama a oedd yn gysylltiedig â'r Rhyfel Byd Cyntaf, 'The Fox' gan D.H. Lawrence. Yn anffodus, ni fu'n cais i Gyngor Celfyddydau Cymru'n llwyddiannus ac felly doedd dim modd cyflawni'r diben penodol hwn a gymeradwywyd. Er hynny, fe lwyddwyd i wneud ein cyfraniad arian cyfatebol i'r prosiect, gyda tua £4000 gan Brifysgol Aberystwyth ar gyfer tri lleoliad gwaith dan hyfforddiant i raddedigion a £1,000 arall i ariannu bwrsariaethau i fyfyrwyr a oedd yn gwirfoddoli, yn ogystal â £2,500 i gyfieithu arddangosfeydd a gweithgareddau hyrwyddo a dysgu i'r Gymraeg.

Cyfanswm ein cyllideb gweithio ar gyfer y prosiect felly oedd £46,600.

Y gwariant terfynol oedd £46,400 (mae'r cofnodion ariannol wedi'u hatodi)

### A 3.2 Cymorth heblaw cyllid, a chyfraniadau'r gwirfoddolwyr

Cawson cymorth anariannol gan y canlynol:

- Lleoliad ac offer Theatr Coliseum Amgueddfa Ceredigion i ddangos dwy ffilm = £500
- Amser staff Archifau Ceredigion mewn da ar gyfer dau sesiwn sgiliau astudio i wirfoddolwyr = £200
- Amser staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru mewn da ar gyfer dau sesiwn sgiliau astudio i wirfoddolwyr = £240
- Lle yng nghaffi Canolfan y Celfyddydau ar gyfer arddangosfa gelf Tachwedd 2018-Ionawr 2019 = £1,000
- Gosod yr arddangosfa uchod = £500
- Amser staff Gwasanaeth Cerdd Ceredigion mewn da = £200
- Amser tîm cynhyrchiad 'Dot and Billy' mewn da (80 awr) = £2,000
- Amser staff y PL mewn da yn ôl £24 yr awr, 4 awr yr wythnos, dros 45 wythnos = £4,320

Dyna gyfanswm o £8,960

Mae amser ein gwirfoddolwyr wrth ymchwilio ac ysgrifennu deunydd i flog y prosiect, trefnu a rhedeg digwyddiadau, mynd i gyfarfodydd a sesiynau hyfforddi, rhoi cyflwyniadau yn amser a roddwyd mewn da hefyd. Rydym yn falch ac yn ddiolchgar iawn o gofnodi bod ein gwirfoddolwyr wedi cyfrannu 942 o oriau neu 125 o ddiwrnodau mewn da, sy'n gyfwerth â £18,840 mewn arian parod tuag at y prosiect hwn, sydd yn uwch na'r targed a gymeradwywyd o £17,900.

## A 4 Rheolaeth y Prosiect

### A 4.1 Arweinydd y Prosiect

Mae arweinydd y prosiect (PL), y Dr Siân Nicholas, yn Ddarllenydd yn Hanes Modern Prydain ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae ganddi 25 mlynedd o brofiad o addysgu modiwlau ar y Rhyfel Byd Cyntaf yn hanes Prydain a bu'n gynghorydd golygyddol yn

ddiweddar ar gasgliad archif digidol ar-lein Adam Mathew, *The First World War: Propaganda and Recruitment*, er nad oedd ganddi brofi hyd at yr adeg honno mewn estyn allan ac ymchwil gymunedol gyda chyfranogwyr anacademaidd. Goruchwylio'r prosiect oedd ei phrif rôl, gan ymwneud yn uniongyrchol â digwyddiadau ac allbynnau penodol.

### A 4.2 Cydlynydd a Swyddog Ymgysylltu'r Prosiect

Cafodd y rôl rheoli a chydlynu holl-bwysig yn y prosiect ei chwarae gan Gydlynydd y Prosiect a'r Swyddog Ymgysylltu (PCO), sef apwyntiad 0.5 FTE dros gyfnod y prosiect. Er bod y prosiect wedi'i fwriadu yn wreiddiol i ddechrau ym mis Tachwedd 2017, yn sgil oedi yn y broses adnoddau dynol (gan gynnwys cyfres o streiciau gan weithwyr yn perthyn i UCU ac Unsain ym Mhrifysgol Aberystwyth ar ddechrau 2018) bu'n amhosibl hysbysebu swydd y PCO tan fis Mawrth 2018 a chafodd y swydd mo'i llenwi tan fis Mai 2018. Hysbysebwyd y swydd yn y papur newydd lleol, ar wefannau swyddi gwag poblogaidd, ac ar Dudalen Swyddi Prifysgol Aberystwyth. Daeth 14 o geisiadau i law (gryn dipyn yn uwch na'r disgwyl) a rhoddwyd pedwar ymgeisydd ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad ym mis Ebrill 2018. Ymgymerodd yr ymgeisydd llwyddiannus, Kate Sullivan, â'r swydd ar 14 Mai 2018. Mae ganddi rywfaint o brofiad gyda phrosiectau HLF a gweithgareddau ymgysylltu cymunedol, ar ôl gweithio gydag Archif Menywod Cymru yn y gorffennol, ac mae'n gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg.

### A 4.3 Grŵp Llywio'r Prosiect.

Cyfarfu Grŵp Llywio'r Prosiect (PSG) am y tro cyntaf ym mis Mai 2018. Roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl sefydliadau allweddol a oedd yn ymwneud â chyflawni'r prosiect, yn cyfarfod bob mis, ac yn gyfle i'r PL a'r PCO gyflwyno adroddiadau ar gynnydd y prosiect a thrafod materion yn codi.[3] Cafodd agendâu a chofnodion dwyieithog eu llunio a'u dosbarthu gan y PCO a bydd y rhain yn cael eu harchifo, yn electronig ac mewn copi caled, ynghyd â gweddill deunyddiau'r prosiect.

Roedd aelodaeth y grŵp (ac eithrio'r PL a'r PCO) yn amrywio o gyfarfod i gyfarfod, o ddeg yn y cyfarfod cychwynnol i bedwar neu bump fel arfer wedyn, gyda rhai aelodau'n rhoi'r gorau iddi ar ôl i'r digwyddiadau yr oedden nhw'n ymwneud â nhw'n uniongyrchol gael eu cynnal. Er hynny, bu craidd brwdfrydig a chyson o aelodau'r grŵp llywio yn cyfarfod yn rheolaidd bob mis (heblaw gwyliau mis Awst a'r cyfnod cyn y Nadolig) ac yn cefnogi ac yn hybu'r prosiect yn barhaus, gan ddod â syniadau, awgrymiadau ac arteffactau perthnasol i'r cyfarfodydd. Roedd eu harbenigedd, eu cyngor, eu hadborth a'u hawgrymiadau yn rhan annatod o lwyddiant parhaus y prosiect, ac roedd y cyfarfodydd misol yn ddull amhrisiadwy o gynnal momentwm ac atebolrwydd y prosiect.

### A 4.4 Cloriannu ac adborth

Drwy gydol y prosiect buon ni'n ceisio monitro a gwerthuso llwyddiant (neu ddiffyg llwyddiant) ein digwyddiadau a'n gweithgareddau, nodi'r arferion gorau ac ymateb mor gyflym â phosibl i unrhyw faterion a fyddai'n codi. O ran cyfranogiad ac estyn allan, roedd ein dulliau gwerthuso yn cynnwys cyfrif y presenoldeb ym mhob digwyddiad ac asesu demograffeg ein gwirfoddolwyr a chyfranogwyr eraill y prosiect yn ansoddol. O ran effaith a

[3] Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r PSG ar y dyddiadau a ganlyn: 24 Mai, 26 Mehefin, 30 Gorffennaf, 17 Medi a 19 Rhagfyr 2018; a 22 Ionawr, 13 Chwefror, 11 Mawrth, 29 Ebrill, 6 Mehefin, 4 Gorffennaf a 5 Medi 1019.

llwyddiant, gofynnwyd am adborth ysgrifenedig mewn ffurflenni adborth a holiaduron lle roedd yn briodol (e.e. ar ôl hyfforddiant a gweithdai celf, neu ar ôl Teithiau Cerdded y Rhyfel), ac roeddem yn effro i adborth llafar mewn sgyrsiau lle roeddem yn teimlo y byddai ceisiadau am adborth ysgrifenedig y'n amhriodol a/neu'n ymwthiol. Nodir yr adborth o wahanol weithgareddau'r prosiect a chynigir sylwadau arno drwy'r adroddiad hwn i gyd.

## ADRAN B: CYHOEDDUSRWYDD A MARCHNATA

### B 1 Y Cyhoeddusrwydd Cychwynnol

Recriwtio gwirfoddolwyr i'r prosiect yn llwyddiannus oedd un peth allweddol ar gyfer llwyddiant y prosiect yn gyffredinol. Y PCO a gymerodd yr awenau yn hyn o beth, gyda chymorth awgrymiadau a chyfraniadau gan y PSG.

Dechreuodd ein strategaeth recriwtio ym mis Mai 2018 gyda thaflen brosiect ddwyieithog Gymraeg/Saesneg a gynlluniwyd gan y PL a'r PCO ac a ddosbarthwyd yn eang ledled y dref a'r brifysgol, ac a ddangoswyd ar hysbysfyrddau yn y gymuned, llyfrgelloedd a cholegau. Fe'i rhannwyd hefyd mewn cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â gwirfoddolwyr dros yr ychydig fisoedd nesaf (a amlinellir isod).

Dyluniwyd hefyd logo prosiect wedi'i seilio ar Gofeb Ryfel Aberystwyth a gafodd ei ddefnyddio wedyn yn ein holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, ynghyd â logos Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'n partneriaid yn y prosiect – Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Archifau Ceredigion, Amgueddfa Ceredigion, Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth a Phrifysgol Aberystwyth.

Defnyddiwyd y logo hefyd i gynllunio bathodyn i'r prosiect, ac fe brynwyd pum cant o'r rhain a'u dosbarthu i'r rhai a fu'n cymryd rhan yn ein holl ddigwyddiadau drwy'r prosiect.

*Logo'r Prosiect wedi'i seilio ar ffotograff o Gofeb Ryfel Aberystwyth gan y PL ac a ddyluniwyd gan Rowen King, disgybl ym Mlwyddyn 9 yn Ysgol Penglais, Aberystwyth*

Hefyd, anfonodd y PCO negeseuon ebost yn uniongyrchol at ganolfannau a sefydliadau lleol yn gofyn iddyn nhw hybu'r prosiect a galw am wirfoddolwyr. Roedd y rhain yn cynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Ceredigion, Llyfrgell Gyhoeddus Aberystwyth, Archifau Ceredigion, grwpiau hanes lleol Ceredigion a Siop a Chaffi Cymunedol Cletwr. Dosbarthwyd posteri a thaflenni i siopau lleol hefyd.

Anfonwyd negeseuon ebost hefyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r prosiect at holl adrannau Prifysgol Aberystwyth, at y staff a'r myfyrwyr, a gosodwyd hysbyseb am bedair wythnos yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2018 yn e-fwletin wythnosol y Brifysgol. Lluniodd y Brifysgol ddatganiad i'r wasg hefyd ar y prosiect, gan ganolbwyntio'n arbennig ar lythyrau 'Dot a

Billy', a arweiniodd at wahodd y PL i raglen frecwast BBC Radio Wales (gweler isod) a gwahoddiad i gyfrannu at erthygl ar-lein i'r wefan academaidd boblogaidd The Conversation (gweler isod).

Ar 4 Mehefin 2018, rhoddodd y PCO gyflwyniad i Grŵp Hanes a Threftadaeth Penparcau, gan ei hysbysebu ymlaen llaw ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol y grŵp. O'r chwech a ddaeth i'r cyflwyniad – lle cafodd arddangosfa ei chodi a thaflenni eu rhannu – ymunodd un fel gwirfoddolwr a daeth i'r sesiwn sgiliau astudio cyntaf i wirfoddolwyr yn Archifau Ceredigion. Efallai mai dyma'r digwyddiad lleiaf llwyddiannus a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect – mae Penparcau yn gynulleidfa anhraddodiadol iawn gyda sawl rhwystr sy'n atal pobl rhag cymryd rhan – ond er bod y gynulleidfa'n fach roedden nhw'n llawn gwerthfawrogiad ac yn teimlo ei bod yn bwysig iawn ein bod wedi mynd â'r prosiect y tu allan i ardal Aberystwyth ei hun i un o'i chymunedau cyfagos.



*Y PCO Kate Sullivan yng Ngrŵp Hanes a Threftadaeth Penparcau, 4 Mehefin 2018*

Ar 20 Mehefin 2018, aeth y PCO i Ffair Wirfoddoli Aberystwyth i drafod dulliau pellach o recriwtio gwirfoddolwyr gyda chynrychiolydd CAVO (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion). Doedd dim llawer yn bresennol yn y Ffair, ond bu'r PCO yn siarad ac yn rhannu taflenni gyda chynrychiolwyr o grwpiau gwirfoddol y Llyfrgell Genedlaethol a Choleg Ceredigion, ac ymunodd dau o wirfoddolwr wedyn o grŵp y Llyfrgell Genedlaethol.

Ar 21 Gorffennaf 2018, aeth y PL a'r PCO i ddigwyddiad gan y Lleng Brydeinig Frenhinol ar y promenâd yn Aberystwyth. Digwyddiad gan y Lleng oedd hwn i godi arian ar gyfer mainc goffa, ac fe wahoddwyd y prosiect i ddod â bwrdd arddangos a siarad ag ymwelwyr am y prosiect. Fe wnaethon ni hefyd werthu bathodynnau'r prosiect i ddenu rhoddion i'r fainc goffa. Mynegodd nifer o bobl ddiddordeb yn y prosiect, ac mae un gwirfoddolwr a recriwtiwyd yno wedi cymryd rhan weithredol a brwdfrydig byth wedyn. Daethom i gysylltiad yma hefyd â Gareth Pugh o'r Lleng, sydd wedi ymgysylltu'n frwdfrydig â'r prosiect, wedi rhoi cysylltiadau i ni ag aelodau eraill o'r Lleng a'i hamrywiol ddigwyddiadau, a gwahodd y prosiect i gymryd rhan yn seremoni swyddogol y dref i nodi canmlwyddiant y Cadoediad ym mis Tachwedd 2018 (gweler adran C 5.4, isod).


*Arweinydd y Prosiect Siân Nicholas yn nigwyddiad y Lleng Brydeinig Frenhinol, Gorffennaf 2018*

Cyfarfu'r PCO hefyd â sawl darpar wirfoddolwr yn ystod Mehefin a Gorffennaf, a glywodd am y prosiect drwy'r cyfryngau cymdeithasol, erthyglau yn y cylchgrawn *Ego*, y *Cambrian News*, ac ar y radio lleol (gweler adran B2 isod). Dechreuodd gwirfoddolwyr ymuno mewn niferoedd cynyddol, rhai am ychydig wythnosau, eraill drwy gydol cyfnod y prosiect. Lluniwyd rhestr o bynciau a thasgau ymchwil a'i hanfon mewn neges ebost at y rhai a fynegodd ddiddordeb mewn gwirfoddoli.

Ar 26 Medi 2018, aeth y PCO i ffair wirfoddoli a gynhaliwyd fel rhan o Wythnos y Glas ym Mhrifysgol Aberystwyth, lle denodd arddangosfa'r prosiect lawer o ddiddordeb a sawl gwirfoddolwr. Dilynwyd hyn â chyfarfod rhagarweiniol i wirfoddolwyr o fyfyrwyr ar 10 Hydref 2018 i gyflwyno myfyrwyr newydd a'r rhai a oedd yn dychwelyd i'r prosiect ac i ysbrydoli rhai o'r rheiny a oedd yn astudio hanes yn arbennig i gymryd rhan. Daeth nifer dda i'r sesiwn, gyda thri ar ddeg o fyfyrwyr yn bresennol, o ystod o ddisgyblaethau academaidd ac yn cynnwys ambell fyfyriwr ar ymweliad o wledydd tramor. Ymunodd sawl un â gwirfoddolwyr y prosiect gan gymryd rhan weithgar a brwd mewn ymchwil i'r prosiect yn eu hamser hamdden, gan gynnwys dilyn sesiynau hyfforddi mewn sgiliau astudio yn y Llyfrgell Genedlaethol a chyfrannu at flog wythnosol y prosiect (gweler isod). Wedyn dewisodd o leiaf ddau ohonynt bynciau yn ymwneud â'r prosiect ar gyfer traethodau israddedig a thraethawd gradd meistr. Er hynny, fel y disgwyliwyd, tueddai cyfraniad llawer o'r myfyrwyr cychwynnol a wirfoddolodd i fod yn anghyson oherwydd gofynion eu hastudiaethau.

Daeth y rhan fwyaf o'r gwirfoddolwyr a gymerodd ran ym misoedd cyntaf y prosiect yn 'ffrindiau' inni ar Facebook a'n dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol, fel y gwnaeth llawer o'r rhai hynny na allent wirfoddoli, am wahanol resymau, er eu bod wedi mynegi diddordeb mewn gwneud hynny. Byddai'r dilynwyr hyn yn aml yn 'hoffi' ac yn rhannu negeseuon y prosiect yn y cyfryngau cymdeithasol drwy gydol y prosiect.

## B 2 Sylw yn y cyfryngau

### B 2.1 Papurau newydd a chylchgronau

Cafodd y prosiect gyhoeddusrwydd hefyd mewn papurau newydd a chylchgronau lleol. Ym Mehefin 2018 argraffodd *Ego*, cylchgrawn misol am ddim sy'n cylchredeg yn eang o amgylch

Aberystwyth a'r cylch, erthygl tudalen llawn am y prosiect a ysgrifennwyd gan y PL, a chawsom sawl sylw a mynegiant o ddiddordeb gan bobl oedd wedi darllen am y prosiect.

Hefyd ym mis Mehefin 2018, ar ôl trafod gyda'r PCO, argraffodd y *Cambrian News* y gyntaf o'r hyn a fyddai'n sawl erthygl nodwedd ar y prosiect. Y *Cambrian News* yw prif bapur wythnosol Aberystwyth a'r cylch, gyda chylchrediad o ryw 7,000 o ddarllenwyr a phresenoldeb gweithgar ar-lein. Roedd yr erthygl gyntaf hon yn llenwi tudalen llawn yn adran 'nodweddion' y papur. Hoeliwyd sylw ar nodau'r prosiect, y ffynonellau i'w hystyried, digwyddiadau a gweithgareddau arfaethedig, y partneriaid dan sylw, sut i gymryd rhan etc. Cafodd y prosiect sylw hefyd yn atodiad Cadoediad y *Cambrian News* ym mis Tachwedd 2018. Hysbysebwyd nifer o ddigwyddiadau'r prosiect hefyd yn y *Cambrian News* drwy gydol y prosiect, yn enwedig y dangosiadau ffilm, perfformiad Theatr 'Dot and Billy', y cyngerdd 'Caneuon y Rhyfel Mawr' a'r teithiau tywys (gweler isod, adran C2, i gael y manylion).

O ran wythnos Cadoediad 2018 ei hun, roedd gan y *Cambrian News* nifer o erthyglau a hysbysebion yn tynnu sylw at ein gwaith a'n nodau a'n digwyddiadau ein hunain ar benwythnos y Cadoediad, gan gynnwys erthygl nodwedd a hysbyseb yn atodiad arbennig y papur newydd ar y Cadoediad, ac yn y rhifyn ar ôl y Cadoediad cafwyd adroddiad ar ein gweithgareddau a llythyr gan gynrychiolydd i'r Lleng Brydeinig a chynghorydd lleol, Paul Hinge, yn diolch i ni'n benodol am ein cyfraniad.

Yn yr un modd, ar ôl digwyddiadau coffáu'r Cadoediad ym mis Tachwedd 2018, yn *Aberjabber*, sef cylchlythyr Eglwys Sant Mihangel, Aberystwyth, y buom yn cydweithredu â nhw ar y gwasanaethau coffáu a'r te Cadoediad wedyn (gweler isod, adran C 5.4 i gael y manylion) cafwyd erthygl tudalen blaen ar y gwasanaeth a ysgrifennwyd gan y PCO, gyda chwarter tudalen ychwanegol ar dudalen 3 yn manylu ar sut i gymryd rhan a phwy i gysylltu â nhw.

### B 2.2 Radio

Yn sgil y datganiad i'r wasg ar y prosiect gan Brifysgol Aberystwyth (gweler uchod), cafodd y PL ei gwahodd i ymddangos ar raglen frecwast BBC Radio Wales i drafod y prosiect, gan ganolbwyntio ar lythyrau 'Dot a Billy' a'r drasiedi bob dydd roedd y ddau yn ei chynrychioli.

Ar 20 Mehefin 2018, gwahoddwyd y PCO ar raglen Brunch Radio Bronglais, radio'r ysbyty lleol, i drafod y prosiect. Dyma ddigwyddiad arbennig o lwyddiannus o ran cyhoeddusrwydd, gan fod y rhaglen yn denu cynulleidfa eang yn yr ysbyty ac yn ymestyn y tu allan i'r ysbyty hefyd. (Rydym wedi gofyn am ffigurau gwrando'r diwrnod hwnnw ond yn anffodus ni chawsant eu darparu). Soniodd y PCO am nodau'r prosiect a sut y gallai pobl gymryd rhan. Daeth aelod o'r staff nyrsio, Heather Jones, i mewn yn ystod y slot a siarad am brofiad ei thad-cu yn y rhyfel byd cyntaf; mae hi wedi cadw mewn cysylltiad â'r prosiect byth wedyn, gan ein dilyn ar Facebook a rhannu ein negeseuon. Bu'r prosiect hefyd yn gymorth iddi olrhain rhywfaint o wybodaeth am fedal anarferol iawn sydd ganddi ac a gyflwynwyd i'w thad-cu yn yr Aifft, o bosibl Gwarchae Kut. Mae Heather bellach yn mynd ar ôl yr hanes anhysbys hwn ynglŷn â'i thad-cu.

Ymddangosodd y PCO ar Radio Bronglais eto ym mis Mai 2019 i siarad am y perfformiad theatr 'Dot and Billy' a'r cyngerdd ysgolion o gerddoriaeth yn ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf, ac i roi diweddariad ar y prosiect. Roedd gan staff y radio ddiddordeb mawr, gan hysbysebu'r rhaglen ar fwy nag un achlysur. Cafodd y darllediad ei droi'n bodlediad hefyd,

sydd ar gael yma: [https:// radiobronglais.cymru/en/podcast/kate-sullivan-talks-about-upcoming-performance-dot-billy-16-05-2019/?fbclid=IwAR2IwjIMkjaKl38Q7xZJGRxdb7L0kbhE8sqSWC5Oc24klBxibA-DYg9DsfE](https://radiobronglais.cymru/en/podcast/kate-sullivan-talks-about-upcoming-performance-dot-billy-16-05-2019/?fbclid=IwAR2IwjIMkjaKl38Q7xZJGRxdb7L0kbhE8sqSWC5Oc24klBxibA-DYg9DsfE)

### B 2.3 Y cyfryngau ar-lein

Yn y cyfnod yn arwain at goffáu'r Cadoediad ym mis Tachwedd 2018, gwahoddwyd y PL i ysgrifennu erthygl i'r wefan academaidd ar-lein boblogaidd 'The Conversation', gan gyfeirio at y prosiect a chanolbwyntio ar lythyrau 'Dot a Billy', ac yn benodol ar y ffaith mai llythyrau, yn wahanol i heddiw, oedd yr unig ffordd i'r milwyr gyfathrebu â'u teuluoedd a'u hanwyliaid gartref, a sut mae'r llythyrau hyn yn adrodd nid yn unig stori profiad rhyfel pobl ond hefyd eu profiad o fywyd bob dydd. Mae'r erthygl, sydd i'w gweld yn [https://theconversation.com/dot-and-billy-how-love-letters-document-the-stories-of-lives-torn-apart-by-world-war-i-106680](https://theconversation.com/dot-and-billy-how-love-letters-document-the-stories-of-lives-torn-apart-by-world-war-i-106680), wedi'i rhannu 90 o weithiau ar Facebook hyd yn hyn.

## B 3 Presenoldeb yn y cyfryngau cymdeithasol

Ym mis Mehefin 2018, agorodd y PCO gyfrifon **Facebook** a **Twitter** i'r prosiect – aberystwyth.atwar ac @AtAberystwyth – yn gysylltiedig â thudalennau cyfryngau cymdeithasol Prifysgol Aberystwyth. Buom yn defnyddio'n tudalennau Facebook a Twitter yn bennaf er mwyn hyrwyddo, rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau a gynhelid a chysylltu â blog y prosiect (gweler isod). Sicrhaodd ein tudalen Facebook lif cyson o ddilynwyr, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys 82 o 'ffrindiau', ac sy'n tyfu drwy'r amser, gyda negeseuon yn cael eu rhannu gan ein dilynwyr a'u 'hoffi' yn rheolaidd.

Mae logo'r prosiect a logo'r HLF i'w gweld yn amlwg ar ein tudalennu yn y cyfryngau cymdeithasol ac mae pob neges ar Facebook a Twitter yn cael eu codi yn y ddwy iaith gan y PCO.

- 


*https://www.facebook.com/aberystwyth.atwar*

## ADRAN C: CYFLAWNI'R PROSIECT

## C 1 Cyfranogwyr y Prosiect

### C1.1 Y Gwirfoddolwyr

Yn wreiddiol roeddem wedi gobeithio recriwtio tua 30 o wirfoddolwyr i'r prosiect. A dweud y gwir, ymunodd dros 70 o drigolion o Aberystwyth a'r gymuned gyfagos â'n rhestr gwirfoddolwyr, gan roi amser pan allent. Amrywiai'r gwirfoddolwyr o bobl o'r dref a thrigolion pentrefi cyfagos, pobl wedi ymddeol, myfyrwyr, newydd-ddyfodiaid i'r ardal a staff y Brifysgol, gydag ystod oedran rhwng 18 a chanol y 70au. Os ydym hefyd yn cyfrif y rhai a gyfrannodd drwy berfformio neu gymryd rhan mewn gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect, fe gyrhaeddodd y prosiect ymhell dros 100 o wirfoddolwyr, sy'n llawer mwy nag yr oeddem wedi'i ddisgwyl, ac yn fesur o faint o ddiddordeb a grëwyd gan y prosiect.

Mae'n bwysig nodi mai 24 o wirfoddolwyr unigol a fu'n cyfrannu'n fwyaf rheolaidd ac eang i'n prosiect, o ran ymchwilio ac ysgrifennu blogiau a dyfeisio ac arwain teithiau cerdded dan arweiniad a chyflwyniadau grŵp. Roeddent hefyd yn rhagweithiol o ran cyhoeddi, hyrwyddo a chodi proffil y prosiect drwy gydol y flwyddyn. Rydym felly yn ddyledus iawn i'r gwirfoddolwyr hyn yn arbennig am eu cefnogaeth ymroddedig a di-ball.

### C 1.2 Lleoliadau graddedigion 'AberYmlaen' a bwrsariaethau Cronfa Prifysgol Aberystwyth

Fel rhan o'n harian cyfatebol fe ariannodd Prifysgol Aberystwyth ddau fyfyriwr ar leoliad gwaith 'AberYmlaen', sef Nathan Davies ac Otto Jones, i ymuno â'r prosiect am fis ym mis Chwefror 2019. Roedd y ddau'n raddedigion diweddar o'r adrannau Hanes a Hanes Cymru a Gwleidyddiaeth Ryngwladol a oedd wedi mynegi dymuniad i weithio ym maes ymchwil hanesyddol. Yn ystod rhan gyntaf eu lleoliad bu'r ddau'n ymchwilio i bynciau ar gyfer blog y prosiect – dyddiadur milwr o Aberystwyth a oedd wedi'i leoli yn yr Aifft, gwrthwynebwyr cydwybodol a recriwtio yn ystod y rhyfel, milwyr o fyfyrwyr a'r Brifysgol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ystod ail ran eu lleoliad, buont yn gweithio ar gronfa ddata'r milwyr ar gyfer map digidol ar-lein y prosiect, gan lenwi bylchau drwy ddod o hyd i ddata coll. Fe'u gwahoddwyd hefyd i gyfarfodydd y PSG fel rhan o'u datblygiad gyrfa.

Sylwadau gan raddedigion AberYmlaen ym mis Chwefror:

> "I'm happy to have had the opportunity to participate in such an interesting and worthwhile project. Having the chance to conduct research into the role of Aberystwyth in the First World War has been an insightful and educational experience, for the work experience I have gained as well as the knowledge. I genuinely felt that my research and input was a valued contribution to the project and the skills I developed will aid me in my future career." OJ

> "Overall, I really enjoyed the AberForward experience, and I think it will be useful both in my work and when applying for jobs with my CV. I particularly enjoyed writing my blog posts, especially the ones about Jack Watkins and Thomas Parry-Williams, as they let me use my research skills extensively in various places and allowed me to get a truly personal insight into WW1, something that is very lacking in the wider historiography of the period. Publishing a blog that got regularly interacted with was also very rewarding.." ND

Ym mis Gorffennaf 2019, ymunodd un arall o raddedigion AberYmlaen, Tom Morgan, â ni am fis arall, eto fel arian cyfatebol. Prif ffocws Tom oedd llenwi rhagor o'r bylchau yn ein map digidol gan ddefnyddio ffynonellau amrywiol yn Archifau Ceredigion a'r Llyfrgell Genedlaethol ac ar-lein, yn ogystal â gwneud rhywfaint o waith traed o gwmpas y dref i ddod o hyd i rai o'r cyfeiriadau yn gorfforol. Ysgrifennodd Tom erthygl i flog y prosiect hefyd ar Gorfflu Gwirfoddol Aberystwyth.

Llwyddodd y prosiect hefyd i sicrhau £1000 mewn arian cyfatebol o Gronfa Prifysgol Aberystwyth i ddarparu bwrsariaethau i israddedigion ymgymryd â lleoliadau gwaith ar y prosiect yn ystod haf 2019. Gyda'r arian hwn, darparwyd bwrsariaethau o £500 yr un i ddau fyfyriwr am brofiad gwaith a oedd yn cyfateb i bythefnos. Ymunodd Alice Sargent â ni am bythefnos yng Ngorffennaf/Awst 2019 ac ymunodd Jack Atherton â ni ym mis Medi, gan gyfrannu unwaith eto at ein blog a llenwi gweddill y data anghyflawn yn y gronfa ddata milwyr. I gael adborth Alice, gweler adran D3 isod.

### C 1.3 Gwirfoddolwyr ysgol haf o Brifysgol y Frenhines, Charlotte, Goledd Carolina, UDA

Yn ystod Gorffennaf 2018, ymwelodd grŵp astudio o 14 o fyfyrwyr o Brifysgol Queen's, Charlotte, Gogledd Carolina, UDA, â Phrifysgol Aberystwyth ar ysgol haf a drefnwyd gan y PL a daeth y grŵp yn ychwanegiad annisgwyl a gwerthfawr at ein cymuned o wirfoddolwyr yn y prosiect. Bu'r grŵp a'u tiwtor, yr Athro Barry Robinson, yn frwd iawn ynglŷn â'r prosiect gan gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau, o sesiynau sgiliau astudio i wirfoddolwyr a theithiau o amgylch archifau Aberystwyth i wersi Cymraeg. Y grŵp hwn hefyd a ddechreuodd yr ymchwil ar ein cronfa ddata o filwyr o Aberystwyth, gan greu a rhannu taenlen gychwynnol gyda'r prosiect, a fydd yn sail i'r map digidol ar-lein (a drafodir ymhellach isod), a hyd yn oed cerdded o amgylch y dref i wirio cyfeiriadau. Doedd y rhan fwyaf ohonynt erioed wedi ymweld â'r Deyrnas Unedig o'r blaen, ac roedd llai na'u hanner yn fyfyrwyr hanes, ond roeddent wrth eu bodd, gan ddysgu llawer am Gymru a'r Cymry yn y Rhyfel Byd Cyntaf, ac erbyn troi am adref roeddent yn edrych ar Aberystwyth fel ail gartref.



*Myfyrwyr Prifysgol y Frenhines, Charlotte, wrth Gofeb Ryfel Aberystwyth, Gorffennaf 2018*

## C 2 Deunyddiau ac arteffactau a roddwyd i'r prosiect ar fenthyg

Aeth nifer o bobl ati, er na fuon nhw'n gwirfoddoli fel ymchwilwyr, i roi deunyddiau a gafodd eu defnyddio gan y prosiect ac a fu'n sail i ymchwil, blogiadau a digwyddiadau amrywiol.

Cafodd llythyrau 'Dot a Billy' eu darparu i'r prosiect gan Mrs Jane Bradly ac fe fuon nhw hefyd, yn ogystal â rhoi'r sail ar gyfer y perfformiad theatr ym mis Mai 2019, yn rhan o'r arddangosfa yng Nghanolfan y Celfyddydau ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2018, darlleniadau'r Cadoediad yn eglwys Sant Mihangel ac yn nigwyddiad 'Tudalennau'r Môr' i gofio'r Cadoediad yn Ynys Las , ac yn rhan o erthygl y PL yn *The Conversation* (gweler isod).

Cafodd y prosiect nifer o erthyglau gan y Dr Susan Davies a berthynai i berthynas iddi, E. Howell, a fu'n gwasanaethu yn Ffrainc. Tynnwyd lluniau o'r rhain ar gyfer arddangosfa Canolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth (gweler isod), ynghyd ag eitemau rhyfel eraill sy'n perthyn iddi.

Trefnodd Archifau Ceredigion ac Amgueddfa Ceredigion hefyd fod sawl arteffact o gyfnod y rhyfel ar gael inni ac fe dynnwyd lluniau'r rhain at yr arddangosfa, yn enwedig Blwch Nadolig prin oddi wrth y Dywysoges Mary a'i gynnwys yn gyfan, a Phlac Coffa o'r Rhyfel Byd Cyntaf (sydd hefyd yn cael ei adnabod fel 'Ceiniog Dyn Marw').

Rhoddodd Mr Ceredig Evans, Penrhyn-coch, bapurau yn ymwneud â'i hen ewyrth, Richard Evan Hughes, a gwnaeth un o'n gwirfoddolwyr ymchwil helaeth ar y rhain a chafodd blogiad diddorol ei lunio gan y gwirfoddolwr Robert Jones.

Cafodd Ceiniog Dyn Marw arall ei rhoi ar fenthyg i'r prosiect gan Mrs Gweneira Davies o Gomins Coch. Arddangoswyd hon gan y PL yn ystod ei chyflwyniadau cyhoeddus (gweler isod) ac enynnai gryn ddiddordeb, nid yn unig o ran ei symbolaeth fel eitem i gofio aelod o'r teulu a fu farw ond hefyd o ran ei maint a'i phwysau, yr oedd yn rhaid ichi ei weld a'i deimlo eich hunan er mwyn ei wir werthfawrogi.

## C 3 Y dibenion a gymeradwywyd

### C 3.1 Pedwar gweithdy hyfforddi mewn sgiliau a dulliau ymchwilio a digideiddio i wirfoddolwyr

Cafodd pedwar gweithdy hyfforddi eu cynllunio i ddechrau, i gyflwyno'r gwirfoddolwyr i sgiliau newydd ac i roi hyder iddynt wrth gychwyn ar eu hymchwil eu hunain. Fel y digwyddodd, llwyddwyd i drefnu pum gweithdy hyfforddi, mewn tri lle gwahanol, ac â thri ffocws gwahanol. Daeth cyfanswm o 34 o wirfoddolwyr i'r rhain, o wahanol gefndiroedd a diddordebau.

<u>Dau sesiwn hyfforddi sgiliau ymchwilio gan Archifau Ceredigion</u>

Cynhaliwyd dau sesiwn hyfforddi sgiliau ymchwil i wirfoddolwyr yn Archifau Ceredigion, ddydd Iau 14 Mehefin a dydd Iau 19 Gorffennaf 2018. Cynhaliwyd y cyntaf yn y prynhawn a'r ail gyda'r nos, i roi cyfle i bobl a oedd yn gweithio fod yn bresennol. Yr archifydd sirol, Helen Palmer, fu'n rhedeg y ddau sesiwn. Cyflwynodd y ffynonellau a gedwir yn yr archifau a siarad am sut i gael gafael arnynt ac ymchwilio iddynt, gan ddangos eitemau amrywiol fel llythyrau rhyfel, llyfrau lloffion, llyfrau ysgol a llyfrau cofnodion, cardiau pleidleisio a chopïau o'r papur newydd lleol, y *Cambrian News*, ar gyfer 1916 a 1918. Daeth wyth o wirfoddolwyr i'r sesiwn cyntaf a daeth 14 i'r ail, gan gynnwys grŵp o chwech o fyfyrwyr o Brifysgol y Frenhines, Charlotte (gweler uchod, adran C1.3).

Cafodd ffurflenni adborth eu rhannu yn y ddau sesiwn hyn a bu'r adborth yn gadarnhaol iawn yn wir. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

> "I thought the session last Thursday was interesting, informative and stimulating. It was great to see so much enthusiasm along with your warm welcome to the project. I am already learning a great deal about WW1 and hope to expand on this."

> "The above session was enjoyable, comprehensive, and immensely interesting. The friendly atmosphere fostered by Sian and Kate was enriched by a detailed and entertaining talk from County Archivist Helen Palmer, which included a hands-on look at some of the principal primary sources available, and a tour of Ceredigion archives. It was a great opportunity to meet the other volunteers, learn more about the project, and get a taste for primary research. I look forward to getting stuck in!"

> "Very informative. Gave me a lot to think about and was a great introduction to what the Ceredigion Archives hold. Helen's passion definitely shone through and this in turn made me excited to find out more. I loved that we were able to look at and handle some of the items/collections at the end of the session."

> "I am very pleased with the direction of the project and I am looking forward to all information we can gather. The story behind each and every man is very particular, therefore understanding their lives and their paths that led to the war is very interesting."



*Sesiwn hyfforddi sgiliau ymchwil yn Archifau Ceredigion 19 Gorffennaf 2018*

<u>Dau sesiwn hyfforddi sgiliau ymchwilio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru</u>

Cynhaliwyd dau sesiwn hyfforddi sgiliau ymchwil arall yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ym mis Hydref 2018. Trefnwyd y rhain i beidio â gwrthdaro â gwyliau pobl dros yr haf ac er mwyn caniatáu i fyfyrwyr newydd a myfyrwyr yn dychwelyd fod yn bresennol. Cynhaliwyd y sesiwn cyntaf ddydd Mercher 17 Hydref yn y prynhawn a'r ail ddydd Mawrth 23 Hydref yn y bore, am y rhesymau uchod. Cafodd y ddau eu rhedeg gan Mr William Troughton, Archifydd yn y Llyfrgell. Daeth chwech o bobl i'r sesiwn cyntaf, dau ohonynt wedi bod yn bresennol yn y sesiynau blaenorol yn Archifau Ceredigion a dau yn fyfyrwyr. Nid oedd cynifer yn bresennol yn yr ail sesiwn, sef tri, ac un ohonynt wedi cofrestru fel gwirfoddolwr yn nigwyddiad y Lleng Brydeinig Frenhinol ym mis Gorffennaf (gweler uchod, Adran B1). Darparodd Wil nifer o gofnodion llyfrgell sylfaenol, megis albymau o ffotograffau rhyfel, llyfrau lloffion a chopïau o'r *Cambrian News*, a siaradodd am sut i gael gafael ar y rhain, yn ddigidol a thrwy

ddefnyddio’r eitem wreiddiol. Dangosodd y grŵp o amgylch ystafell ddarllen adran lawysgrifau’r Llyfrgell hefyd a sut i ddefnyddio’r darllenydd *fiche* papurau newydd.

Nid oedd yr adborth o’r sesiynau hyn mor llawn â’r hyn a gafwyd o’r sesiynau cynharach yn Archifau Ceredigion, a hynny oherwydd y niferoedd llai a’r niferoedd llai a lenwodd ffurflenni adborth, ond roedd y sylwadau’n cynnwys y canlynol:

> “William provided primary sources such as photograph albums and Comfort Fund letters from serving soldiers – all fascinating to look through and to listen to his explanations. He took time and trouble to speak to us individually about our interests and projects and to help those who were unsure where to start. In the reading rooms he showed us how to use microfilm, and ‘schedules’ of documentary history such as for Nanteos House [a local stately home and large historic landowning estate]. I guess the only thing I’d expected that didn’t happen was being shown how to navigate the over-complex and rather bewildering online NLW catalogue (!) to actually identify resources to use, and how to order them – but I guess time and technology constraints prohibited, and we can ask library staff for help with this. Nevertheless, it was a session well worth providing and much appreciated.”

> “The study skills session was very helpful and useful. I’ve learned how to use the microfilm and how to use the NLW computers to search for the information in the newspapers.”



*Sesiwn hyfforddi sgiliau ymchwil yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 17 Hydref 2018*

Un Cwrs Hyfforddi Archifau Digidol

Cafodd y pumed cwrs hyfforddi i wirfoddolwyr, yn arwain at achrediad Agored Cymru, ei redeg gan Gasgliad y Werin, ddydd Iau 2 Mai 2019 ym Mhrifysgol Aberystwyth, dan arweiniad y tiwtor Gruffydd Jones. Daeth pump o bobl i’r cwrs, a dysgu am faterion hawlfraint, sut i gasglu metadata, technegau digideiddio, a phwysigrwydd archifo. Yn ystod y gweithdy pedair awr, cyflawnodd yr aelodau elfen ymarferol hefyd lle bu pob unigolyn yn digideiddio eitemau i’w huwchlwytho i wefan Casgliad y Werin a chwblhau llyfryn gwaith a oedd yn eu cymhwyso i ennill achrediad ffurfiol gan Agored Cymru. Yn ddiweddarach, anfonwyd sioe sleidiau o’r cyflwyniad a’r dogfennau ategol at yr aelodau.

Roedd y nifer a ddaeth i’r cwrs yn is nag yr oeddem wedi’i obeithio, yn rhannol o bosibl oherwydd yr amseru – ei gynnal yn ystod yr wythnos yn golygu nad oedd pobl mewn cyflogaeth yn debygol o fod yn bresennol. Er hynny, roedd holl adborth yr aelodau’n

gadarnhaol, gyda phob un o’r pump yn rhoi sgôr ‘bodlon iawn’ ar y ffurflenni gwerthuso a’r sylwadau canlynol:

> “Gruffydd was a brilliant speaker and was very patient. Very impressed that the project offered this course to us. I enjoyed having the opportunity to practice the practical elements of digitization – scanning, using photoshop etc. Overall, a very good session.”
>
> “The workshop was well taught and enjoyable, with plenty of opportunities to ask questions if I was confused or wanted further information. The scanning facilities were readily available and it was good to a hands on experience.”
>
> “The tutor explained everything efficiently and clearly which made my enjoyment levels high and meant that I learned a lot. I now understand the process of digitization, which will assist me in my future endeavours.”



*Wrthi’n ymarfer yn y cwrs hyfforddi ar archifau digidol, 2 Mai 2019*

### C 3.2 Pedwar gweithdy ysgolion gyda disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 o ysgolion uwchradd Penglais a Phenweddig

Cynhaliwyd y ddau weithdy cyntaf o bedwar gweithdy ysgol a drefnwyd yn Ysgol Penglais, gyda dosbarth o ugain o blant blwyddyn 8, ddydd Iau 27 Mehefin a dydd Gwener 5 Gorffennaf 2019. Yng ngoleuni eu meysydd llafur hanes perthnasol, teimlai’r ysgol fod blwyddyn 8 yn gynulleidfa fwy priodol na blwyddyn 7. Cynhaliwyd y rhain yn ddiweddarach yn amserlen y prosiect nag yr oeddem wedi’i rag-weld yn wreiddiol, ond, unwaith eto, roedd yn bwysig ein bod yn cyd-fynd â maes llafur ac amserlen yr ysgol ei hun. Ysgol Penglais yw ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg Aberystwyth, ac roeddem wedi gobeithio cynnal gweithdai cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Penweddig, ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg y dref. Er hynny, ni wnaeth Penweddig dderbyn ein cynigion mynych i ymweld â’u hysgol nhw.

Cyflwynodd y gweithdy cyntaf y disgyblion i fywyd yn Aberystwyth yn y Rhyfel Byd Cyntaf, gan ganolbwyntio ar ddeunyddiau gweledol gan gynnwys lluniau o Aberystwyth yn y cyfnod hwnnw a straeon am effaith y rhyfel ar y dref. Roedd y disgyblion yn effro iawn ac yn gofyn cwestiynau deallus gydol yr amser. Fel yn achos anerchiad y Sgowtiaid (gweler C 3.3 isod), stori – a lluniau – Julian, y tanc a ymwelodd ag Aberystwyth yn 1918 gan godi

arian ar gyfer ymdrech y rhyfel, a ddenodd y diddordeb mwyaf. Hoeliodd yr ail weithdy sylw ar y map digidol o filwyr Aberystwyth a'u cyfeiriadau cartref gan roi cyfle i'r disgyblion ei archwilio drostynt eu hunain, tasg yr aethant ynglŷn â hi ag arddeliad a gwir ddiddordeb, a chyfle i roi adborth ysgrifenedig ar holiaduron ar sut roedden nhw'n credu bod y gweithdy wedi gweithio. Rhoddodd athro'r dosbarth adborth ffafriol hefyd, yn enwedig ar berthnasedd y gweithdy i 'gynefin'

Roedd yr ymatebion i'r holiadur yn cynnwys y canlynol:

> "I found out that a lot of people went to fight in the war from Aberystwyth. I also found out that not as many people died as I thought they did"
>
> "Saw a family member and looked at them"
>
> "I found that lots of the people that fought lived close to the centre of town and along the sea front"
>
> "I liked how we could see who lived where and what they did and when they died".
>
> "I found out that many men fought in France and also Egypt"
>
> "I found out that someone lived in my house"
>
> "The Donaldson Report will result in a revolution in education and will be rolled out in secondary schools from 2022 starting with Y7. Humanities is one of the six distinct areas of study and this requires an appreciation and study of their locality (*cynefin*). Below is the introduction to the Humanities area of learning and that is where it is first mentioned. Your project is therefore of great value." (Mr Darren Payne, History teacher, Penglais School)


Cynhalwyd y ddau weithdy arall yn Ysgol Penglais ar 11eg a 21ain Hydref 2019, yn adeiladu ar yr hyn a gafodd ei ddysgu yn y ddau cyntaf i gyflwyno disgyblion Blwyddyn 9 i filwyr penodol o Aberystwyth a fu'n gwasanaethu, ac i'w hannog i ymchwilio i'w bywydau a'u cofnodion rhyfel ar ein map a'n cronfa ddata ar-lein ac mewn mannau eraill fel rhan o'u gwaith cwrs ar y Rhyfel Byd Cyntaf. Gobeithio y bydd hyn yn dod yn nodwedd barhaol o astudiaethau blwyddyn 9 ar y Rhyfel Byd Cyntaf yn Ysgol Penglais.

### C 3.3 Tri chyflwyniad ar y canfyddiadau i grwpiau cymunedol lleol

Y gobaith gwreiddiol oedd mai gwirfoddolwyr y prosiect a fyddai'n gwneud y rhain, ond fel y digwyddodd, oherwydd cyfyngiadau amser a rhywfaint o swildod ymhlith y gwirfoddolwyr eu hunain, y PL a roddodd ddau o'r cyflwyniadau. Roeddem yn hynod falch mai gwirfoddolwr o'r enw Lynne Blanchfield a wnaeth a llall, a hynny er gwaethaf llawer o nerfau ar y dechrau.

<u>1. Cyflwyniad i Sgowtiaid Aberystwyth, dydd Sadwrn 10 Tachwedd 2018, 10.30am-12pm.</u>
Cafodd yr anerchiad hwn ei drefnu ar gyfer penwythnos canmlwyddiant y Cadoediad, ac fe'i cyflwynwyd gan y PL. Roedd 10 o Sgowtiaid yn bresennol, rhwng tua 11 a 13 oed, ynghyd â phedwar o arweinwyr y Sgowtiaid. Cawsant eu hannog gan y PL i gynnig eu syniadau a'u sylwadau gydol y cyflwyniad a buont yn gwrando ac yn cymryd rhan mewn ffordd ddeallus a brwd. Roedd ganddynt ddiddordeb arbennig yng 'Ngheiniog y Dyn Marw' a ddangosodd y PL, sef rhywbeth nad oedd yr un o'r bechgyn erioed wedi'i weld o'r blaen. Rhywbeth arall a greodd argraff arnynt oedd stori Julian y Tanc yn ymweld ag Aberystwyth yn 1918, a lluniau

o filwyr yn gorymdeithio drwy'r dref.  Ar ôl y cyflwyniad, aeth y sgowtiaid allan i Aberystwyth i leoli'r union strydoedd a welid yn y ffotograffau, a chafwyd peth trafod a allen nhw ail-greu'r ffotograffau yn nes ymlaen yn y flwyddyn (er nad ydym wedi cael diweddariad ar hyn hyd yn hyn).




*Arweinydd y Prosiect, Siân Nicholas, a Cheiniog Dyn Marw yn y cyflwyniad i'r Sgowtiaid, 10 Tachwedd 2018*

2. Roedd <u>'Nodiadau ar Brosiect Ymchwil Hanes Cymunedol'</u> yn anerchiad a roddwyd gan y PL ddydd Mercher 6 Chwefror 2019, 5-6pm, ym Mhrifysgol Aberystwyth. Roedd yn un mewn cyfres o seminarau ymchwil wythnosol a gynhelid gan adran Hanes a Hanes Cymru Prifysgol Aberystwyth ond a oedd yn agored i bawb. Cafwyd presenoldeb da iawn, ystafell lawn mewn gwirionedd, gyda chyfran sylweddol o'r gynulleidfa yn fyfyrwyr a rhai nad oeddent yn haneswyr.  Pwysleisiodd y PL natur gymunedol y prosiect a sut yr oedd yn wahanol i astudiaethau academaidd traddodiadol, ac amlinellodd rywfaint o'r ymchwil a wnaed a'r digwyddiadau a gynhaliwyd. Tynnodd sylw hefyd at y ffynonellau allweddol yr oeddem yn edrych arnynt; yr amrywiaeth o ran gwirfoddolwyr, h.y. cymysgedd o fyfyrwyr a phobl o'r gymuned, gan gynnwys rhai newydd-ddyfodiaid i'r ardal, pobl wedi ymddeol ac ymwelwyr; diwylliant materol y prosiect; deilliannau; profiadau unigol; a'r ymdeimlad o gynefin a amlygwyd ym map digidol y prosiect.

3. <u>'Taith Gerdded Rithwir o amgylch Aberystwyth y Rhyfel Byd Cyntaf'</u>.  Cododd y cyflwyniad hwn ar ffurf taith gerdded rithwir o'r 'Teithiau Rhyfel' a oedd yn un arall o'r dibenion a gymeradwywyd ar gyfer y prosiect (gweler isod, adran C 3.8), ac fe'i cynhaliwyd gan un o wirfoddolwyr y prosiect a chyflwynydd y Teithiau Rhyfel, Lynne Blanchfield, mewn gwisg o'r cyfnod, i Gymdeithas Cynfyfyrwyr Aberystwyth yn yr Hen Goleg ddydd Sadwrn 6 Gorffennaf 2019.  Roedd y PCO hefyd yn bresennol – hefyd mewn gwisg o'r cyfnod. Roedd deuddeg o bobl yn bresennol, bob un ohonynt wedi ymddeol ac yn dod o'r ardal leol.  Roedd cyflwyniad Lynne wedi'i seilio i raddau helaeth ar ymchwil ei phrosiect ei hun ar siopau'r dref yn y Rhyfel Byd Cyntaf, ac er gwaethaf ei nerfau cychwynnol, rhoddodd sgwrs hyderus a difyr.  Gan fod rhai o'r rhai a oedd yno yn cofio rhai o'r siopau a grybwyllwyd gan Lynne, roedd y sesiwn yn un ddeinamig iawn, gyda llawer o ryngweithio a chwestiynau, a chyfle annisgwyl i rannu atgofion o Aberystwyth y dyddiau a fu.

**C 3.4   Pedwar diwrnod o weithdai celfyddydau cymunedol yn cael eu rhedeg gan artist lleol yng Nghanolfan Celfyddydau Aberystwyth**

Fel y digwyddodd, llwyddwyd i gynnal **pump** yn hytrach na phedwar o weithdai, gan fod angen dau sesiwn ar gyfer un ohonynt. Cynhaliwyd y rhain ym mis Mawrth, Mai, Mehefin a Gorffennaf 2019 yng Nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth. Roedd yr amseru'n hwyrach na'r disgwyl gan fod yr arlunydd preswyl adeg dyddiad dechrau arfaethedig gwreiddiol y prosiect (Tachwedd 2017) wedi gadael ei swydd erbyn i'r prosiect ddechrau ym mis Mai 2018 (gweler uchod, adran A 4.2), ac fe fu'n rhaid i'r gweithdai gael eu had-drefnu gydag olynydd yr artist gwreiddiol, Amanda Trubshaw. Hoeliodd pob gweithdy sylw ar gyfrwng celf gwahanol, gyda phob un wedi'i anelu at grŵp cymunedol gwahanol, a chawsant eu cynnal gyda thiwtoriaid dosbarth gwahanol yn Aberystwyth, fel a ganlyn:

<u>Sesiwn 1: Sesiwn Ffotograffiaeth Cyfiawnder Ieuenctid Aberystwyth</u> – dydd Sadwrn 23 Mawrth 2019, 11.30am – 4.30pm. Tiwtor Brian Swaddling. Daeth grŵp o 18 o bobl ifanc 11-18 oed i'r sesiwn

<u>Sesiynau 2 a 3: Gweithdy crochenwaith Grŵp Merched y tîm Cyfiawnder Ieuenctid</u> – dydd Iau 14 Mawrth a dydd Iau 2 Mai 2019, 3.30-5.30pm. Tiwtor Laura Hughes. Daeth grŵp o 10 o ferched 12-18 oed i'r sesiwn

<u>Sesiwn 4: Diwrnod Ysgrifennu Creadigol Aber Gwanwyn</u> – dydd Llun 10 Mehefin 2019, 10.30am – 3pm. Tiwtor Damian Gorman. Daeth grŵp o 8 o bobl 60+ oed i'r sesiwn

<u>Sesiwn 5: Gweithdy peintio di-dâl, yn defnyddio cyfryngau cymysg</u> – dydd Gwener 21 Mehefin 2019, 10am – 1pm. Tiwtor Karen Pearce. Daeth 6 o oedolion i'r sesiwn.

Roedd nifer dda yn bresennol yn y gweithdai deinamig, ac roedd ystod amrywiol o oedrannau, galluoedd, diddordebau a phrofiad yn y cyfranogwyr. Roedd cyfranogiad y grŵp cyfiawnder ieuenctid yn arbennig o foddhaol inni gan fod y bobl ifanc hyn yn dod o gefndiroedd lle mae lefelau ymgysylltu â threftadaeth yn arbennig o isel. Casglwyd adborth gan ddefnyddio holiaduron, ac roedd yr ymatebion yn dangos mor newydd a gwerthfawr oedd y profiad i lawer:

<u>Sesiwn Ffotograffiaeth Cyfiawnder Ieuenctid:</u>

> "The chance to do photography in group was a first, it was very enjoyable. I would love to do more workshops."
>
> "I found it all enjoyable because I've never done it before."
>
> "My favourite thing was taking pictures of things because I like photography."
>
> "I would like to do more, maybe from the top of Constitution Hill as it would be nice to see more detail in the images."

<u>Gweithdy crochenwaith Grŵp Merched y tîm Cyfiawnder Ieuenctid:</u>

> "We had the first session last night with the girls' group – it was fantastic! Feedback forms attached. Many thanks for funding this opportunity – these young girls don't have much access to the arts and they were thrilled at the chance to create and make with clay!" (Amanda Trubshaw, Creative Learning Manager, Aberystwyth Arts Centre)
>
> "I like being creative, seeing the end of something I made. Learnt about poems and how to work with clay."
>
> "Really cool cos I made something new. How to think about assembling things."
>
> "How to do pottery as I've never done it before. It was fun and I learnt that we in Aberystwyth are the only ones with a naked lady [on the war memorial]."



*Angel o'r gweithdy crochenwaith i bobl ifanc a ysbrydolwyd gan Gofeb Ryfel Aberystwyth*

<u>Diwrnod ysgrifennu creadigol:</u>

> "Leading up to the date, some of the group were saying they were 'fed up' of always talking about the wars and focussing on such sadness. We explored how they felt and did think that we might end up with writings about why they didn't want to write about WW1. However, they came up with (the topic of) 'waiting.' I hope you are happy with the work – they had an amazing session! (Amanda Trubshaw)
>
> "Mixture of ages and different viewpoints."
>
> "The friendship and being able to do things I've never tried before."
>
> "Damian . . . encourages everyone to think they can write and is liberal with his praise."
>
> "Listening to others' stories. Yes, I would be interested in more workshops."
>
> "Wasn't too keen on WW1 topic at first but Damian made it enjoyable."

<u>Gweithdy peintio di-dâl:</u>

> "I had actually never looked at the monument as much as I did today- now plan to do more research."
>
> "Very knowledgeable and helpful tutor, extremely encouraging, particularly to step out of one's comfort zone."
>
> "Interested in doing more workshops definitely. Aberystwyth has so much to offer the artist – whatever the level of expertise. I had not visited the WW1 memorial before today."

**C 3.5 Gweithdy drama a pherfformiad drama wedi'i seilio ar lythyrau 'Dot a Billy' gan Ganolfan y Celfyddydau, Aberystwyth**

Cafodd <u>'Let Us Be Sweethearts'</u>, sef darlleniad o lythyrau 'Dot a Billy', ei gynnal yn Stiwdio Crwn Canolfan Celfyddydau Aberystwyth, ar 16 a 17 Mai 2019, ar ôl chwe mis o gynllunio ac ymarfer.




*Poster 'Let Us Be Sweethearts', a ddyluniwyd gan Paddy O'Malley*

Cafodd y llythyrau eu hunain eu haddasu a'u dramateiddio gan Tom O'Malley, Athro Emeritws yn y Cyfryngau ym Mhrifysgol Aberystwyth, a Mr Richard Hogger, preswylydd lleol sydd â phrofiad mewn theatr gymunedol. Yna cafodd y perfformiad ei gyfarwyddo gan Mr Hogger yn seiliedig ar yr addasiad. O gofio nifer fawr y llythyrau (dros 170 ohonynt), roedd eu siapio'n berfformiad theatrig cydlynol yn dasg enfawr, a chyfrannodd yr Athro O'Malley a Mr Hogger ymhell dros y cyfraniad mewn da a gafod ei gynnwys yn y cais ar y dechrau. Gan hynny, mewn ymgynghoriad â'r PSG, penderfynwyd y byddai unrhyw elw o'r swyddfa docynnau uwchlaw'r ffi o £200 a gyllidebwyd ar gyfer cyfarwyddo'r perfformiad, yn cael ei roi i'r tîm perfformio, ar ôl i Ganolfan Gelfyddydau Aberystwyth gymryd eu 30% statudol nhw. Y swm a ddaeth yn ôl i'r prosiect oedd £490, a chafodd £400 ei rannu'n gyfartal rhwng Tom O'Malley, Richard Hogger, Caroline Clark, a drefnodd y gwisgoedd, a'r ddau actor, Calista Williams a Patrick Cavanagh, a chafodd £90 ei ddychwelyd i gyllideb y prosiect.



*Ymarfer gwisgoedd 'Let Us Be Sweethearts', dydd Mercher 15 Mai 2019*

Roedd llwyddiant y ddrama yn well na'n holl ddisgwyliadau.  Roedd 45 yn y gynulleidfa ar y noson gyntaf a chafodd pob un o'r 60 o docynnau eu werthu ar yr ail. Ar fwrdd arddangos y tu allan i'r theatr roedd yna wybodaeth gyd-destun am Dot a Billy ac am y prosiect.  Roedd y gynulleidfa i'r ddau berfformiad, a oedd wedi cael cyhoeddusrwydd da yn lleol, yn cynnwys gwirfoddolwyr y prosiect a phobl newydd i'r prosiect, a nifer sylweddol o bobl wedi ymddeol o'r gymuned leol.  Dilynwyd y noson gyntaf gan sesiwn hawl i holi, ac arhosodd bron y cyfan o'r gynulleidfa. Aelodau'r Panel oedd Jane Bradly, Tom James, Richard Hogger, Tom O'Malley, Calista Williams, Patrick Cavanagh a'r PCO.  Roedd hyn yn gyfle i'r gynulleidfa drafod noson emosiynol iawn ac i'r perfformwyr a'r llenorion – bob un ohonynt eu hunain yn wirfoddolwyr ar y prosiect – drafod eu hymatebion eu hunain i'r llythyrau.



*Aelodau o gynulliedfa 'Let Us Be Sweethearts' o flaen y bwrdd arddangos y tu allan i'r theatr*

Cafodd y ddrama ei ffilmio hefyd gan gwmni lleol, AMP Media, ychydig cyn cael ei pherfformio, ac wedyn cynhyrchodd AMP Media DVD o'r ddrama i'w ddefnyddio gan grwpiau ac ysgolion lleol yn y dyfodol.

**C 3.6 'The Fox', drama wedi'i seilio ar stori D.H. Lawrence sydd wedi'i gosod ym 1918 ynghylch y cyfnod ar ôl y Rhyfel, yn cael ei pherfformio gan Grŵp Theatr Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth (cyhyd ag y ceid cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru)**

Fel y nodir yn adran A 3.1 uchod, ni fuom yn llwyddiannus yn ein cais am arian gan Gyngor y Celfyddydau tuag at yr elfen hon o'n prosiect, felly, mae'n flin gennym na chafodd y Diben penodol hwn mo'i gyflawni.

**C 3.7   Dau ddangosiad ffilm yn agored i bawb yn awditoriwm theatr hanesyddol Amgueddfa Ceredigion**

Dangosiad 1, dydd Gwener 18 Mai 2018. Dangosiad dwbl oedd hwn, sef *Battle of the Somme* (1916) ac *All Quiet on the Western Front* (1930) yn theatr hanesyddol y Coliseum yn Amgueddfa Ceredigion. Hwn hefyd oedd y digwyddiad cyhoeddus cyntaf i'w drefnu a'i gynnal gan y prosiect.  Fel un o'n partneriaid yn y prosiect, darparodd yr Amgueddfa y lleoliad am ddim a chodi pris fforddiadwy o £6.00 gyda myfyrwyr yn cael mynediad am ddim i'r ffilm gyntaf, a phrisiau gostyngol o £5.00 i bobl hŷn, pobl heb gyflog a phant oed ysgol.  Roedd y gynulleidfa o ryw 25 yn dda ar gyfer digwyddiadau ffilm yn y lleoliad hwn,

yn ein barn ni – yn enwedig gan mai dyma noson wirioneddol gynnes gyntaf yr haf eleni! Cyflwynodd y PL y ddwy ffilm, gan esbonio rhywfaint o'u hanes a'u heffaith gyfoes, a manteisiodd hefyd ar y cyfle i roi cyhoeddusrwydd i'r prosiect a diolch i chwaraewyr y Loteri. Bu'n noson ddwys ond roedd y rhai a oedd yn bresennol yn werthfawrogol iawn o'r cyfle i weld y ffilmiau prin hyn mewn sinema.

Dangosiad 2, dydd Gwener 9 Tachwedd 2018, 6-9pm. I nodi penwythnos Cadoediad 2018, ar y cyd ag Amgueddfa Ceredigion cynhaliodd y prosiect eto fil dwbl o ffilmiau o'r Rhyfel Byd Cyntaf yn theatr y Coliseum: *Mrs John Bull Prepared*, sef ffilm bropaganda gan y llywodraeth o 1918 yn annog menywod i wneud gwaith rhyfel a dynion i werthfawrogi ymdrechion y menywod yn ystod y rhyfel, gyda chyfeiliant byw ar y piano gan y Dr C. Stephen Briggs; a fersiwn gwreiddiol 1930 o *Journey's End*. Rhoesom gyhoeddusrwydd i'r digwyddiad yn y *Cambrian News* ac ar-lein, a chyda phoster a ddyluniwyd gan Amgueddfa Ceredigion. Roedd tocynnau ar gael am ddim i'r ffilm gyntaf ac am £6.00 i'r ail, gyda chonsesiynau fel o'r blaen. Cafwyd presenoldeb da yn y dangosiad hwn eto (er bod y tywydd y tro hwn yn wirioneddol ofnadwy, gyda glaw trwm a gwyntoedd cryf), gyda chynulleidfa eto o dros 20. Unwaith eto, rhoddodd y PL gyflwyniad byr i'r ddwy ffilm. Cafwyd derbyniad brwdfrydig i'r ddwy ffilm, gyda *Mrs John Bull Prepared* yn cael ei gwerthfawrogi'n arbennig am ei newydd-deb a'i hiwmor, ac am y cyfeiliant piano ardderchog a oedd yn cynnwys alawon cyfoes yn ogystal â rhai o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf. Yr hyn a oedd yn arbennig o drawiadol i ni oedd faint o bobl a arhosodd ar ôl wedyn i drafod y ffilmiau gyda'r PL, y PCO a'i gilydd.




*Poster noson ffilmiau Penwythnos y Cadoediad*

**C 3.8 Pum taith dywys ryngweithiol ddwyieithog o amgylch Aberystwyth, wedi'u seilio ar fenter mapio'r prosiect, ac yn dilyn llwybr sy'n nodi cartrefi cyn wirfoddolwyr a chyn filwyr gorfod y Rhyfel Byd Cyntaf, dan arweiniad gwirfoddolwyr yn chwarae rôl**

Trefnodd y prosiect bedair taith gerdded dywys rhwng Mai a Gorffennaf 2018, sef dwy ar 4 Mai (taith Saesneg yn y bore ac un Gymraeg yn y prynhawn), un ar 22 Mehefin, ac un ar 27

Gorffennaf (y ddwy yn Saesneg, gan adlewyrchu'r galw). Hysbysebwyd y teithiau cerdded yn y *Cambrian News* ac ar y cyfryngau cymdeithasol, a gofynnwyd i'r cyfranogwyr gofrestru yn Archifau Ceredigion. Gosodwyd uchafswm ar gyfer pob taith gerdded, sef 10, a fyddai'n hawdd ei reoli. Yn wreiddiol roeddem wedi bwriadu cynnal pum taith gerdded, fel y nodwyd yn ein cais ac yn ein 'Dibenion a Gymeradwywyd ', ond yn anffodus, fel y digwyddodd, cafodd hyn ei ostwng i bedair yn sgil nifer y gwirfoddolwyr a oedd ar gael.

Roedd y diddordeb cychwynnol yn enfawr, ac roedd yna lawer gormod o enwau ar gyfer y ddwy daith gyntaf, gydag ugain o enwau wedi'u rhoi ar restr aros ar gyfer teithiau cerdded dilynol. Roedd y ddwy daith wedyn yn llai poblogaidd, gyda 5 a 6 yn cerdded yn y drefn honno, sef cyfanswm o 31 i gyd, a oedd wedi bwcio ymlaen llaw, ynghyd a 3 arall a trodd i fyny ar y diwrnod i'r daith gytaf, felly y nifer terfynol oedd 34.

.

Arweiniwyd y pedair taith gerdded gan ddau o wirfoddolwyr y prosiect, Nigel Callaghan a Lynne Blanchfield, yng ngwisgoedd y cyfnod. Dechreuodd y teithiau yn Amgueddfa Ceredigion, gan ddilyn llwybr i'r promenâd i sôn am ymweliad Julian y Tanc â'r dref yn ystod Wythnos Arfau Rhyfel yn 1918, a hanes Ysbyty'r Groes Goch yn Aberystwyth (sef Gwesty'r Cambria bellach.) Aethant ymlaen i'r Hen Goleg, ac ar hyd Heol y Wig i'r Porth Bach i nodi tai rhai o'r dynion o Aberystwyth a fu'n gwasanaethu, yna ymlaen i Stryd y Farchnad i sôn am lety'r milwyr yn 1914-15 a dangos safle sinema gyntaf Aberystwyth (Canolfan Pantyfedwen erbyn hyn) a gynigiai adloniant i'r milwyr.

Wedyn croesai'r teithiau i'r Ffynnon Haearn i nodi tŷ mecanydd yn yr RAF a fu farw o'r ffliw yn 1918; i lawr Stryd Cambria i weld tai nifer o filwyr a ddaeth yn garcharorion rhyfel; i Ffordd y Môr i ddangos lle'r oedd sawl siop yn ystod y rhyfel; i lawr Ffordd Portland i sôn am y milwr dan oed yn Rhif 12 a fu farw ddau fis cyn ei ben-blwydd yn 17 a 'theulu gwladgarol' Aberystwyth, sef y Merediths yn Rhif 41, yr aeth naw ohonynt i wasanaethu ar amryw o feysydd a phob un wedi goroesi; ac i mewn i Sgwâr y Frenhines, lleoliad y rinc sglefrio ac adloniant arall i'r milwyr a'r trigolion yn ystod y rhyfel. Daeth y teithiau i ben yn ôl yn yr Amgueddfa lle darparwyd te a choffi yn ystod sesiwn adborth gyda'r cyfranogwyr. Cafwyd adborth ffafriol iawn gan bawb ar lafar ac yn ysgrifenedig, ac roeddent yn gwerthfawrogi'n arbennig wybodaeth a chyfeillgarwch y ddau arweinydd.




*Y gwirfoddolwr o arweinydd, Lynne Blanchfield, mewn gwisg nyrs o'r Rhyfel Byd Cyntaf, y tu allan i hen Ysbyty Croes Goch Aberystwyth, 2 Mai 2019*



*Y gwirfoddolwr o arweinydd Nigel Callaghan, yng ngwisg swyddog o'r Rhyfel Byd Cyntaf, ar bromenâd Aberystwyth, 22 Mehefin 2019*

Roedd y cerddwyr ar y teithiau cerdded yn gymysgedd o bobl, o staff a myfyrwyr y brifysgol, i bobl y dref, ac yn cynnwys preswylwyr o fannau mor bell i ffwrdd â Llanidloes. O ran iechyd a diogelwch, ac yn unol â dewisiadau'r arweinwyr gwirfoddol, roedd y teithiau wedi'u cyfyngu i oedolion dros ddeunaw oed. Cafwyd cymysgedd o ran oedran yr oedolion, gyda sawl person o oedran pensiwn. Ystyriwyd hyn wrth geisio gosod y cyflymder, h.y. ei gadw at gyflymder cymedrol i araf er mwyn i bawb ddal i fyny. Goresgynnwyd anhawster croesi'r ffordd drwy hysbysu'r grŵp yn y croeso y bydden ni wrth groesi ffyrdd yn hoffi i bawb gadw'n agos at ei gilydd a chroesi dim ond pan fyddai'n ddiogel gwneud, gyda'r PCO yn atal y traffig pe bai angen (ac fe wnaeth hynny sawl tro). Pan fyddai'r arweinydd yn stopio yn y mannau penodol i sôn am bwnc arbennig, gofynnid i'r grŵp ymgasglu'n agos at ei gilydd i gystadlu â sŵn y traffig a'r dref yn gyffredinol.

Roedd sylwadau'r rhai a fu'n cerdded ar y teithiau yn cynnwys y canlynol:


> "I enjoyed looking at Aberystwyth from a different perspective and having the time to reflect on the new facts I was learning. I also appreciated the opportunity to speak to experts and enthusiasts and fellow participants. The coffee break at the end of the walk was a good idea as it allowed us to develop the above. The costumes were great !!!"
>
> "Taith ddiddorol dros ben, wedi ei chynllunio yn dda. Hanesion personol yn cael eu defnyddio'n effeithiol dros ben. Gwisgoedd yn ychwanegu at y profiad hefyd. Gobeithio bydd modd cynnal teithiau tebyg yn y dyfodol. Mae'n amlwg bod digon o ddeunydd i gael cyfres ohonnynt!"
>
> "Hoffais yr holl daith a chael dod i wybod am hanes Aberystwyth y pryd hynny a'r effaith a gafwyd ar y dre'. Roedd yn dda edrych o gwmpas yn hamddenol ac edrych I fynny a sylwi ar rhai arwyddion ar yr adeiladau am y tro cyntaf. Yn dda gwneud hynny gyda rhywun a gwybodaeth helaeth."
>
> "I really enjoyed the fact that the gentleman leading the tour spoke clearly and the level of the Welsh language was accessible even for Welsh learners. The tea time shared with the attendees and the speaker at the end of the tour was very interesting too."

"The guide's knowledge and expertise meant she could answer questions too. This was an interesting and accessible way to connect with the history of Aberystwyth during WW1 and the number of people attending suggested more guided walks would be well received."

"I thought the personal aspect of having a character take the walk worked well. It was an informal walk but it had good structure due to the planning of the locations stopped at and the way the information had been researched. I also liked the way the walk allowed us to have a glimpse in to the general life of Aberystwyth soldiers. I felt that the tea at the end of the event was an excellent idea. This gave the group a chance to talk about the things they had heard on the walk and a chance to ask questions about the information that had been presented."

### C 3.9 Cyngerdd yn cyflwyno ensembles o'r ysgolion lleol ac o blith ieuenctid y sir i gerddoriaeth y Rhyfel Byd Cyntaf (Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Ceredigion)

Ein bwriad yn wreiddiol gyda'r Diben a Gymeradwywyd hwn oedd cynnal digwyddiad yn seiliedig ar y cyngerdd a gynhaliwyd yn Aberystwyth ar 1914 gan ffoaduriaid o wlad Belg, mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Ceredigion. Fel y digwyddodd, roedd y Gwasanaeth o'r farn bod atgynhyrchu *repertoire* gwreiddiol y cerddorion o wlad Belg yn rhy uchelgeisiol yn yr amser a chyda'r adnoddau oedd ar gael. Ar ôl ymgynghori â'r PSG a'r Gwasanaeth Cerdd , penderfynwyd cynnal cyngerdd o ganeuon a cherddoriaeth yn ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf yn cynnwys *ensembles* o'r ysgolion lleol. Cynhaliwyd y cyngerdd, 'Caneuon y Rhyfel Mawr', yn Theatr y Coliseum, Amgueddfa Ceredigion, 22 Mai 2019, 7-8pm. Rhoddodd rhaglen y cyngerdd fanylion am y prosiect, gan ddiolch yn benodol i'r HLF a chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.




*Poster 'Caneuon y Rhyfel Mawr'*

Perfformiwyd y cyngerdd gan ryw 35 o blant o *ensembles* cerdd ysgolion Ceredigion, yn amrywio o 7 i 17 oed. Roedd yr awditoriwm dan ei sang gyda chynulleidfa o ryw 50, sef teulu a chyfeillion y plant yn bennaf. Cost y tocynnau oedd £6, gyda gostyngiad am brynu'n gynnar, sef £4 a phlant am ddim, gydag Amgueddfa Ceredigion yn cadw'r enillion yn lle ffi lleoliad. Roedd hanner cyntaf y cyngerdd yn cynnwys disgyblion Ysgol Gynradd Plascrug, yn canu caneuon poblogaidd o'r Rhyfel Byd Cyntaf a rhai caneuon Cymraeg. Yn yr ail hanner bu Band Pres Ieuenctid Aberystwyth, gyda disgyblion o ysgolion Penweddig a Phenglais, yn chwarae darnau yn cynnwys 'Gwŷr Harlech' ac 'Abide with Me'. Daeth y cyngerdd i ben gyda dau ddisgybl yn darllen enwau'r rhai o Aberystwyth a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf, a'r Last Post gan arweinydd y band Mr Aidan Hassan. Cafodd pob plentyn a gymerodd ran un o fathodynnau'r prosiect. Roedd yr adborth yn hynod gadarnhaol, gyda rhieni'n mwynhau'r cyngerdd a'r plant wrth eu boddau gyda'r cyfle prin i berfformio yn y lle hanesyddol hwn sy'n llawn atgofion.




*Côr Ysgol Plascrug, a Band Pres Ysgolion Aberystwyth yn perfformio yng nghygerdd 'Caneuon y Rhyfel Mawr', Theatr y Coliseum, Amgueddfa Ceredigion, 22 Mai 2019*

### C 3.10 Arddangosfa chwe-wythnos o'r prosiect celf cymunedol uchod, yng Nghaffi Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth

Cynllun gwreiddiol y prosiect, a adlewyrchir yn y Dibenion a Gymeradwywyd, oedd cynnal arddangosfa a fyddai'n cynnwys cynnyrch y gweithdai celf a drefnwyd. Ond, oherwydd yr oedi sylweddol o ran cynnal y gweithdai, am fod eu trefnydd gwreiddiol wedi symud i ffwrdd (gweler adran C 2.4 uchod), bu'n rhaid ailfeddwl am yr elfen hon o'r prosiect.

Gan hynny, ac mewn ymgynghoriad â'r PSG a Chanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth, penderfynwyd cynnal arddangosfa o ddarganfyddiadau gweledol y prosiect a'r ymchwil a oedd ar y gweill, i gyd-fynd â digwyddiadau coffáu canmlwyddiant y Cadoediad, yn y cyfnod 8 Tachwedd 2018-2 Ionawr 2019. Roedd hyn yn cynnwys atgynyrchiadau ffotograffig o ansawdd uchel o ddeunydd a ganfuwyd yn y Llyfrgell Genedlaethol, Archifau Ceredigion, Amgueddfa Ceredigion, ac mewn casgliadau preifat, gan gynnwys posteri recriwtio, delweddau o wrthrychau materol fel Blwch Nadolig y Dywysoges Mary a Beibl maes, map o ffosydd ffrynt y gorllewin, cardiau post yn dangos milwyr yn gorymdeithio o amgylch y dref, erthyglau papur newydd am fechgyn Aberystwyth ar wasanaeth gweithredol, hysbysebion adloniant lleol, atgynhyrchiad o 'Geiniog Dyn Marw', a map o Aberystwyth o 1906, lle roedd

pinnau'n dangos cartrefi 200 o'r rhai a fu'n gwasanaethu, fel rhagolwg technoleg isel o'n map ar-lein (gweler adran C 3.2 isod).

Lansiwyd yr arddangosfa gyda'r nos ar 8 Tachwedd 2018 gyda lluniaeth am ddim gan Ganolfan Celfyddydau Aberystwyth, lle'r oedd rhyw ddwsin o bobl yn bresennol.

Bu'r arddangosfa ei hun yn llwyddiant ysgubol ac enynnodd lawer iawn o sylw.  Roedd caffi Canolfan y Celfyddydau yn lleoliad arbennig o dda, gyda nifer fawr o ymwelwyr o'r brifysgol a'r tu allan iddi, ac roedd yr amseru, yn cyd-fynd â chanmlwyddiant y Cadoediad a'r Ffair Nadolig yng Nghanolfan y Celfyddydau sy'n para deufis, yn ffodus.  Roedd yr adborth llafar i staff Canolfan y Celfyddydau ac i'r PL a'r PCO i gyd yn gadarnhaol ac yn frwd.



*Arweinydd y Prosiect Siân Nicholas a Rheolwr Celfyddydau Gweledol Canolfan y Celfyddydau, Ffion Erfyl Rhys, yn trafod cynllun yr arddangosfa; technegydd y Ganolfan, Tim Walley, yn haeddu ei hoe a'i baned!*



*Lansio'r arddangosfa, nos Iau 8 Tachwedd 2018*




*Map o Aberystwyth a Cheiniog Dyn Marw ar wal pen caffi'r Ganolfan*

### C 3.11 Archifo deunyddiau drwy Archifau Ceredigion, Casgliad y Werin, a Phrifysgol Aberystwyth

Mae archifo allbynnau'r prosiect yn llwyddiannus bob amser wedi bod yn un o nodweddion allweddol etifeddiaeth y prosiect, ac rydym wedi ymgynghori'n eang ag arbenigwyr lleol i sicrhau bod gwaith caled ein gwirfoddolwyr yn cael ei archifo gystal ag y bo modd, fel a ganlyn:

- Bydd y map digidol ar-lein yn cael cartref yn Adran Hanes a Hanes Cymru, Prifysgol Aberystwyth, a bydd ar gael i'r cyhoedd drwy gyfrwng tudalen gwe dynodedig am ddeng mlynedd o leiaf. Byddwn hefyd yn darparu ar yr un tudalen y gronfa ddata y crëwyd y map ohoni, er mwyn hwyluso'r broses o chwilio am filwyr unigol.
- Yn yr un modd, bydd blog y prosiect yn cael ei ddarparu ar-lein gan yr Adran Hanes a Hanes Cymru am o leiaf ddeng mlynedd. Rydym hefyd yn gobeithio cyhoeddi llyfr o'r blogiadau ym mis Rhagfyr, yn ddwyieithog, i'w gyflwyno i'r cyfranwyr gwirfoddol, ei ddosbarthu i ysgolion Cymraeg a Saesneg lleol, a threfnu ei fod ar gael i'w brynu yn Archifau Ceredigion ac Amgueddfa Ceredigion. Bydd hwn yn adnodd dysgu unigryw a ysgrifennir gan gymuned Aberystwyth a'r cylch i'r gymuned ac am y gymuned.
- Bydd y ffotograffau mewn fframiau a gynhwyswyd yn arddangosfa'r prosiect yn cael eu cadw gan Adran Hanes a Hanes Cymru Prifysgol Aberystwyth, a'u harddangos a'u benthyca at ddibenion arddangosfeydd ac addysg.
- Bydd y fersiwn ffilm o 'Let Us Be Sweethearts' yn cael ei gadw gan Adran Hanes a Hanes Cymru Prifysgol Aberystwyth, a chynigir copi DVD o'r ffilm i ysgolion lleol i'w defnyddio'n addysgol.
- Bydd y deunyddiau ffisegol a roddwyd i'r prosiect (gweler adran C2 uchod) yn cael eu coladu a'u hadneuo yn Archifau Ceredigion, Amgueddfa Ceredigion neu Lyfrgell Genedlaethol Cymru fel y bo'n briodol mewn ymgynghoriad â'r rhoddwr

### C3.12 Darpariaeth Gymraeg drwy'r prosiect i gyd

Roedd darpariaeth Gymraeg yn elfen annatod o'r prosiect o'r cychwyn cyntaf. Cyflwynwyd yr holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd yn ddwyieithog, gan gynnwys taflenni, posteri a ffurflenni adborth. Cafodd un o'r pedair taith gerdded ei chynnal yn Gymraeg a byddem wedi cynnal ail daith hefyd pe bai'r galw amdani wedi bod; a chafodd ein gweithdy i ysgolion ei gynnig yn Gymraeg i'r ysgol uwchradd Gymraeg leol. Cafodd ein tudalennau Facebook a Twitter eu cyflwyno'n ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg, ac ysgrifennwyd a llwythwyd nifer o'n blogiadau yn Gymraeg. Mae ein PCO Kate Sullivan yn rhugl ei Chymraeg ac roedd hi bob amser ar gael i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu croesawu a'u cynnwys yn y prosiect.

**C 3.13 Cydnabyddiaeth amlwg i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar y safleoedd, ar-lein ac yn yr holl weithgareddau, yn ogystal â defnyddio'r prosiect i gydnabod chwaraewyr y Loteri Genedlaethol a diolch iddyn nhw.**

Roedd ein holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd, ac eithrio'r bathodynnau (lle nad oedd lle), yn cynnwys logo'r HLF yn amlwg, a lle roedd hynny'n bosibl, gydnabyddiaeth ysgrifenedig i'r HLF a diolch penodol i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Yn yr un modd, cyn yr holl anerchiadau fe gafwyd diolch i'r HLF a chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Mae'n tudalen Facebook, ein cyfrif Twitter a blog y prosiect i gyd yn cynnwys logo'r HLF, a bydd y map ar-lein yn gwneud hynny hefyd yn ei fersiwn terfynol i'r cyhoedd.

## <u>C 4 Allbynnau perthynol a nodwyd yng nghais y prosiect</u>

### C 4.1 Blog y Prosiect

Cafodd blog y prosiect ei sefydlu ym mis Mehefin 2018 i roi cyhoeddusrwydd i ymchwil gan wirfoddolwyr y prosiect, ac mae wedi bod yn un o'n llwyddiannau mwyaf annisgwyl ac amlwg, gyda blogiad newydd yn cael ei ychwanegu bron bob wythnos drwy gydol y prosiect – dros 70 i gyd hyd yn hyn. Anogwyd y gwirfoddolwyr i ymchwilio ac ysgrifennu ar bynciau a oedd o ddiddordeb iddynt, ac mae nifer o bobl wedi cyfrannu mwy nag un darn.

Mae'r pynciau'n cynnwys: seiri rhyddion Aberystwyth yn y rhyfel; ymweliad Julian y Tanc ag Aberystwyth; Siopau Aberystwyth adeg y Nadolig; Bechgyn Aber dros y môr; Byddin Tir y Menywod; Casgliad Wyau'r Plant ar gyfer y clwyfedig; Ffoaduriaid o wlad Belg; Plasty Nanteos a'r Rhyfel; Cylch Gwnïo Penparcau; Gwleidyddiaeth Ceredigion ym mis Awst 1914; 'Ceiniogau Dynion Marw'; Ysbyty'r Groes Goch yn Aberystwyth; Nyrsys Aberystwyth yn Serbia; plant lleol ac ymdrech y rhyfel; ac unigolion lleol a fu'n gwasanaethu, megis Jack Watkin, Henry Ballinger, Richard George Read, Cyril Mortimer Green, Llewellyn Hughes, Llewellin Hicks a'r gwyddonydd Margaret Turner.

Mae'r blogiadau'n amrywiol a diddorol, ac mae nifer yn torri tir newydd. Er enghraifft, profodd blogiad gan Ruby Radwan, newydd-ddyfodiad i'r ardal o'r Aifft, ynghylch YMCA Aberystwyth, fod cangen Aberystwyth wedi'i sefydlu yn ystod y Rhyfel Mawr, yn 1917, ac nid ar ôl i'r rhyfel ddod i ben, fel y credid yn eang. Dangosodd blogiad am Gronfa Cysuron Aberystwyth fod milwyr o Aberystwyth ar y rheng flaen fel arfer yn cadw ymlyniad emosiynol cryf â'u cartref, yn hytrach na chael eu dieithrio – fel y mae llawer o'r llenyddiaeth hanesyddol yn ei awgrymu ynglŷn a milwyr y Rhyfel Byd Cyntaf.

Yn Saesneg y cyflwynwyd y blogiadau gan mwyaf, gan adlewyrchu dewis iaith yr ymchwilwyr gwirfoddol.




*https://aberystwyth-at-war.blogspot.com/*

### C 4.2 Map digidol ar-lein

Y map digidol ar-lein yw un o'r canlyniadau mwyaf arloesol yn Etifeddiaeth ein prosiect. Yn ystod y prosiect, bu cyfres o wirfoddolwyr, o dan arweiniad y PL, yn llunio cronfa ddata o bob milwr yn Aberystwyth y gallem ei adnabod ac a fu'n gwasanaethu yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r gronfa ddata hon yn cynnwys cymaint o wybodaeth ag yr ydym wedi gallu dod o hyd iddi am enwau'r rhai a fu'n gwasanaethu (gan gynnwys menywod), eu blwyddyn geni, eu cyfeiriad yn Aberystwyth, eu galwedigaeth yn y cyfnod cyn y rhyfel, y gangen o'r lluoedd, y radd, y gatrawd neu'r hyn oedd yn cyfateb iddi, man(nau) lle bu'n gwasanaethu, medalau a enillwyd, a wnaethant oroesi ynteu marw, ac os bu farw, achos y farwolaeth a lle y'i claddwyd. Mae'r wybodaeth hon wedi'i defnyddio wedyn i greu map digidol o Aberystwyth a'r cylch yn y presennol ac yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf gan ddefnyddio meddalwedd ArcGIS, sy'n pinbwyntio cyfeiriadau cartref pawb a fu'n gwasanaethu a hefyd yn galluogi'r defnyddiwr i fanylu a mapio nodweddion fel y gangen o'r lluoedd, y radd, y man lle bu'r milwr yn gwasanaethu, a manylion allweddol eraill. Hyd yn hyn, rydym wedi nodi dros 1200 o bersonél gwasanaeth unigol, ac mae eu manylion yn cael eu diweddaru'n ddyddiol. Mae fersiwn cynnar o'r map i'w weld yn http://arcg.is/019eDf. Bydd fersiwn wedi'i ddiweddaru, a hwnnw ar gael i'r cyhoedd, i'w weld ar wefan Adran Hanes a Hanes Cymru Prifysgol Aberystwyth, cyn diwedd 2019 a chaiff ei archifo am o leiaf ddeng mlynedd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw rydym yn debygol o'i ddiweddaru o dro i dro.

Y map hwn yw un o lwyddiannau mawr y prosiect: cafodd pawb sydd wedi gweld y fersiynau cynnar, o wirfoddolwyr i fyfyrwyr i blant Ysgol Penglais, ei daro gan ehangder ac amrywiaeth yr wybodaeth a gyflwynwyd, y ddirnadaeth y mae'n ei rhoi o'r dref a'i thrigolion yn ystod y rhyfel, amrywiaeth profiadau'r rhai a fu yn y lluoedd, ac effaith aruthrol y Rhyfel Byd Cyntaf ar ddemograffeg y dref a'r ardal gyfagos. Mae'n darparu model o'r hyn y gellir ei wneud gyda thechnoleg gyfrifiadurol gymharol syml i wneud hanes yn weladwy ac yn fyw i gymunedau, a hwnnw wedi'i wreiddio yn yr union strydoedd y maent yn eu cerdded bob dydd.

Hoffem gydnabod yn ddiolchgar gymorth amhrisiadwy yr Athro Barry Robinson, o Brifysgol Queen's, Charlotte yn yr UDA, wrth gyflwyno'r PL i feddalwedd ArcGIS ac wrth drosi'r gronfa ddata i'r map ei hun.

## C 5: Gweithgareddau ychwanegol heb eu nodi'n wreiddiol yng nghais y prosiect

### C 5.1 Sesiynau galw heibio i wirfoddolwyr

Cafodd y sesiynau anffurfiol hyn eu cynnal yn fisol yn ystod 2018 a 2019 yng nghaffi Amgueddfa Ceredigion, heblaw mis Rhagfyr. Sesiynau agored oedd y rhain lle gallai gwirfoddolwyr ddod i mewn dros gyfnod o ddwy awr, i rannu eu hymchwil a'u darganfyddiadau, gofyn cwestiynau neu godi materion, neu ddal i fyny gyda thîm y prosiect a gwirfoddolwyr eraill dros baned. Bu'r sesiynau'n ddefnyddiol ac yn llawn ysgogiad ac er nad oedd niferoedd mawr yn bresennol, roeddent yn amlwg o werth cymdeithasol mawr yn ogystal â gwerth deallusol i'r grŵp craidd o wirfoddolwyr rheolaidd a ddaeth i bron bob un.



*Sesiwn galw heibio i wirfoddolwyr yng nghaffi Amgueddfa Ceredigion*

**C 5.2 Darlith ar ffoaduriaid y Rhyfel Byd Cyntaf o wlad Belg gan y Dr Rhian Davies**, Yr Hen Goleg, nos Fercher 31 Hydref, 6pm. Gan na lwyddodd y prosiect i ail-greu cyngerdd ffoaduriaid Gwlad Belg ym 1914 fel y gobeithiwyd yn wreiddiol (gweler uchod, adran C 3.9), awgrymodd y PSG gynnal y ddarlith hon gan y Dr Rhian Davies, Cyfarwyddwr Artistig Gŵyl Gregynog ac arbenigydd ar y cyngerdd a'i hanes, fel ffordd o gyflawni ein nod gwreiddiol drwy ddulliau eraill. Yn anffodus, oherwydd diffyg cyhoeddusrwydd yn sgil negeseuon cymysg rhwng y prosiect a'r Hen Goleg, cymharol wael oedd y nifer a ddaeth i'r anerchiad, sef cynulleidfa o wyth. Dywedodd y rhai a oedd yn bresennol wrth y PCO ei fod yn anerchiad da iawn. Bwriedir i'r anerchiad gael ei ailadrodd yn Y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, fel rhan o'u darlithoedd amser cinio, ar ddechrau 2020.

**C 5.3 Te Cadoediad Ysgol Penglais**, dydd Gwener 9 Tachwedd 2018, 2-4pm. Aeth y PL i'r digwyddiad hwn, yn dilyn gwahoddiad gan yr ysgol. Codwyd bwrdd arddangos y prosiect a denodd ddiddordeb y rhai oedd yn bresennol, er bod yr amserlen dynn iawn o gerddoriaeth a darlleniadau gan y plant ysgol yn golygu na chafodd y sylw a gafodd mewn digwyddiadau eraill. Roedd hyn yn drueni gan fod neuadd yr ysgol dan ei sang, gyda llawer o gyn-filwyr yn bresennol.



*Te Cadoediad Ysgol Penglais, 9 Tachwedd 2018*

**C 5.4 Gwasanaeth Cadoediad a The Cymunedol Eglwys Sant Mihangel,** Cofeb Ryfel Aberystwyth ac Eglwys Sant Mihangel, 11-12.30pm a'r Hen Goleg 12.30-2pm.

Ar ôl inni fod yn bresennol yn nigwyddiad y Lleng Brydeinig Frenhinol ym mis Gorffennaf 2018 (gweler uchod, Adran B1), cysylltodd cynrychiolwyr y Lleng, Paul Hinge a Gareth Pugh, â'r PL i drafod cyfraniad gan y prosiect at ddigwyddiadau coffáu canmlwyddiant y Cadoediad yn y dref, ac yn benodol gwasanaeth y Cadoediad yn Eglwys Sant Mihangel a ddilynodd yr orymdaith a'r seremoni gosod torch wrth Gofeb Ryfel Aberystwyth. Paratôdd y PL gyfres o ddarnau o'r llythyrau 'Dot a Billy', a ddarllenwyd yn ystod y gwasanaeth gan brif fechgyn a phrif ferched ysgolion Penglais a Phenweddig, tra darllenwyd y llythyr at rieni Billy yn dweud ei fod wedi marw gan Gareth Pugh. 'Gobaith' oedd pwyslais y coffâd ac roedd yn wasanaeth emosiynol ac atgofus, gyda'r eglwys dan ei sang a lle i sefyll yn unig.

Roedd Te'r Cadoediad yn llwyddiannus iawn ar ôl y gwasanaeth, gyda rhyw gant o bobl o'r dref a'r ardaloedd cyfagos ynghyd â llawer o gyn-filwyr ac aelodau'r lluoedd arfog yn dod drosodd i'r Hen Goleg ar ôl bod yn yr eglwys. Codwyd bardd arddangos y prosiect a denodd lawer o gwestiynau a sylwadau ynghyd â gwahoddiad i ysgrifennu erthygl i gylchlythyr misol yr Eglwys *Aberjabber* (gweler adran B2 uchod). Buom yn cydweithio â'r Lleng Brydeinig Frenhinol, Eglwys Sant Mihangel a Bwyd Dros Ben Aberystwyth ar y digwyddiad hwn.



*Byrddau arddangos y prosiect yn Nhe Cadoediad yr Hen Goleg, 11 Tachwedd 2018*

**C 5.5 'Tudalennau'r Môr'** Ynys Las, dydd Sul 11 Tachwedd, 12-4pm. Dyma ddigwyddiad cenedlaethol a ysbrydolwyd gan Danny Boyle ac a oedd yn cynnwys lluniau tywod o rai o feirwon y Rhyfel Byd Cyntaf a dynnwyd yn y tywod o gwmpas glannau Prydain. Gwahoddwyd y prosiect i gymryd rhan yn nigwyddiad lleol 'Tudalennau'r Môr' yn Ynys Las gan Ffion Erfyl Rhys, Rheolwr y Celfyddydau Gweledol yng Nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth, a oedd yn cydlynu'r digwyddiad. Dechreuodd y PL y sesiwn 'meic agored' yn y digwyddiad gyda darlleniad o'r *Cambrian News* ynghylch Wythnos Cadoediad 1918, a chynigiodd pedwar gwirfoddolwr ddarllen y darnau o 'Dot a Billy' a oedd wedi ymddangos yn gynharach y diwrnod hwnnw yng Ngwasanaeth Cadoediad Eglwys Mihangel Sant. Daeth nifer o bobl i gysylltiad â'r prosiect wedyn i rannu profiadau teuluol o'r Rhyfel Byd Cyntaf.

**C 5.6 Gŵyl Gregynog**, haf 2019. Erbyn hyn roedd y prosiect wedi sefydlu cysylltiad â Chyfarwyddwr Artistig Gŵyl Gregynog, y Dr Rhian Davies, ar ôl iddi annerch ar ran y prosiect ar y ffoaduriaid o Wlad Belg (fel y nodir uchod, C 5.2). Roeddem yn awyddus i barhau â'r cysylltiad hwn i mewn i Ŵyl Gregynog ei hun, gan mai 'Gweledigaeth' oedd thema'r ŵyl yn 2019 gan ddathlu ymdrechion teulu Davies o Gregynog dros well byd wedi'i wreiddio mewn diwylliant a heddwch ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf. Felly, aethom ati i noddi'r ŵyl drwy hysbysebu ei digwyddiadau ar ein tudalennau yn y cyfryngau cymdeithasol ac ymhlith ein gwirfoddolwyr, a thrwy wneud cyfraniad ariannol bach (£50) i'r datganiad organ arbennig gan Meirion Wyn Jones yng nghapel Bethel, Aberystwyth, ddydd Sul 30 Mehefin 2019.

**C 5.7 Dathliad a digwyddiad 'diolch' ar ddiwedd y prosiect**. Bwriedir cynnal digwyddiad i ddweud diolch i'n gwirfoddolwyr prosiect a'n partneriaid ar 1 Hydref 2019 yn Amgueddfa Ceredigion, gyda chyfle i drafod a myfyrio ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd dros y flwyddyn ddiwethaf a hanner dros ddiodydd, a dangos am y tro cyntaf ffilm orffenedig 'Let Us Be Sweethearts', sef ffilm 'Dot a Billy.'

**C.5.8** Cafodd y prosiect estyniad rhwng 1 Hydref a 30 Tachwedd i atgynhyrchu detholiad o flogiau'r prosiect ar-lein mewn llyfryn printiedig. Golygwyd y blogiau gan y PCO ac, yn dilyn eu cyfieithu i'r Gymraeg, byddant yn cael eu hargraffu gan Y Lolfa, cwmni cyhoeddi Cymreig lleol yn gynnar yn y flwyddyn nesaf.

## ADRAN D: CRYNODEB A CHASGLIADAU

### D 1: Crynodeb o nodau'r prosiect a'i gyraeddiadau

Bwriad y prosiect, 'Aberystwyth a Rhyfel: Profiad, Effaith, Etifeddiaeth 1914-1919', oedd archwilio effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar bobl a chymunedau Aberystwyth, tref a chanolfan hanesyddol addysg a diwylliant ar y glannau yn y Canolbarth, a hynny drwy ymdrechion cydweithredol ystod eang o grwpiau addysgol, archifol, diwylliannol a chymunedol lleol, gan ganolbwyntio ar ymgysylltu â gwirfoddolwyr, uwchsgilio ac allbynnau a fyddai'n rhoi etifeddiaeth treftadaeth i'r gymuned, yr ardal, a'r tu hwnt.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn, mae'r prosiect wedi cyflawni pob un o'r nodau hyn. Rydym wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â mwy na 70 ac yn anuniongyrchol ag ymhell dros 100 o gyfranogwyr yn y prosiect, ac mae'n gweithgareddau i estyn allan yn ehangach wedi cyrraedd cannoedd yn fwy drwy'r cyfryngau yn lleol a'r tu hwnt. Mae ein grŵp craidd o wirfoddolwyr wedi datblygu sgiliau archifol, digidol a chreadigol, ac wedi ymchwilio a dehongli ar gyfer cynulleidfa ehangach ystod sylweddol o hanesion rhyfel Aberystwyth a'r cyffiniau. Mae'r prosiect wedi cynnal gweithgareddau, arddangosiadau, gweithdai, dangosiadau ffilm, digwyddiad cerddorol, a theithiau cerdded wedi'u tywys. Mae wedi chwarae rhan allweddol mewn digwyddiadau i goffáu canmlwyddiant y Cadoediad yn lleol, ac wedi comisiynu a goruchwylio gwaith i gynhyrchu a recordio drama newydd wedi'i seilio ar ffynonellau sydd newydd eu darganfod. Mae hefyd wedi datblygu adnoddau ar-lein newydd a hygyrch sydd ar gael i'r cyhoedd, sef blog ar-lein a map digidol rhyngweithiol agored o'r ardal yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Yn anochel, nid aeth popeth gystal â'r gobaith ar y dechrau. Oherwydd yr amgylchiadau, bu'n rhaid dileu un o'r Dibenion a Gymeradwywyd ('The Fox') a chwtogi nifer o'n digwyddiadau arfaethedig. Roedd nifer y gwirfoddolwyr yn gryf mewn rhai rhannau o'r gymuned, ond yn llai felly mewn rhannau eraill. Bu ffactorau megis camgyfathrebu neu dywydd gwael (neu dda!) yn cyfyngu ar y cynulleidfaoedd i rai digwyddiadau.

**D 2: Sut mae'n prosiect yn bodloni'r canlyniadau a nodwyd yn benodol gan yr HLF**

**D 2.1 Treftadaeth:**

Rydym wedi <u>gwella rheolaeth</u> drwy nodi amrywiaeth sylweddol o ddeunyddiau ffynhonnell lleol yn ymwneud â phrofiad lleol o'r Rhyfel Byd Cyntaf, rhannu gwybodaeth am y rhain ac annog y cyhoedd i'w defnyddio, ac wedi annog pobli adneuo mwy o ddeunyddiau ffynhonnell mewn safleoedd archifol lleol, megis Archifau Ceredigion, Amgueddfa Ceredigion a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Rydym wedi sicrhau <u>cyflwr gwell</u> drwy hybu a hwyluso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffynonellau a rannwyd, drwy alluogi gwirfoddolwyr i ymchwilio, adeiladu a dosbarthu eu straeon eu hunain am y rhyfel yn gyhoeddus a thrwy wneud eu gwaith yn rhan o'r ymwybyddiaeth o dreftadaeth y Rhyfel Byd Cyntaf yn Aberystwyth ei hun.

Rydym wedi sicrhau <u>gwell dehongli ac esbonio</u> drwy gydlynu ymdrechion arbenigwyr yn ein mudiadau treftadaeth lleol i rannu eu gwybodaeth am adnoddau a chymryd rhan mewn gwaith i hyfforddi gwirfoddolwyr, esbonio a rhoi cymorth iddynt. Mae blog y prosiect a'r gronfa ddata yn dystiolaeth uniongyrchol bod y gwirfoddolwyr wedi dysgu sgiliau ymchwil yn effeithiol. Mae ein rhestr amrywiol o ddigwyddiadau prosiect wedi cyflwyno ystod eang o bobl i agweddau ar eu treftadaeth leol oedd yn anhysbys iddynt o'r blaen, a rhoddwyd hwb i ragor o ddiddordebau ymchwil at y dyfodol.

Rydym wedi llwyddo hefyd i <u>adnabod a chofnodi'n well</u> ein treftadaeth gymunedol o'r Rhyfel Byd Cyntaf, yn arbennig – ond nid yn unig – drwy gyfrwng ein blog a'n cronfa ddata, a fydd yn adnoddau parhaol i'r gymuned leol.

**D 2.2 Pobl:**

Rydyn ni wrth ein bodd â hyd a lled y gwaith ymgysylltu a wnaed gan ein prosiect. Er bod rhai rhannau o'r gymuned leol (ardal Penparcau er enghraifft) yn dal yn amharod i ymwneud â'r dreftadaeth leol ehangach, roedd ein carfan o wirfoddolwyr yn cynnwys dros 70 o bobl o bob lliw a llun, gyda'r craidd a ddisgwyliwyd – o gofio'n lleoliad – o bobl wedi ymddeol a myfyrwyr, ond hefyd plant ysgol a phobl ifanc (rhai o gefndiroedd difreintiedig iawn), cyn-filwyr, newydd-ddyfodiaid i'r ardal (gan gynnwys nifer o genhedloedd eraill, yn arbennig aelod o'r gymuned Bwylaidd a newydd-ddyfodiad i'r ardal o'r Aifft), a grŵp o fyfyrwyr ar ymweliad o'r Unol Daleithiau.

Mae ymgysylltu ehangach wedi'i sicrhau a bydd yn dal i gael ei sicrhau drwy waddol y prosiect: y blog (yr ydym yn gobeithio ei gyhoeddi), y map ar-lein a'r gronfa ddata (a fydd ar gael i'r cyhoedd), a'r DVD 'Dot and Billy', yn ogystal â'r gweithdy ysgolion uwchradd i Flwyddyn 8/9. Bydd y blog a'r gweithdy ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gobeithio y bydd y map ar-lein yn dod yn fodel ar gyfer adnoddau cenedlaethol eraill ar y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae'n gwirfoddolwyr wedi dangos sgiliau newydd ym maes ymchwil, ac wrth flogio am yr ymchwil honno, mewn llythrennedd digidol, mewn perfformio (gan gynnwys siarad cyhoeddus), yn y celfyddydau creadigol, ac mewn gwaith tîm. Maen nhw wedi ymwneud â'u treftadaeth leol mewn ffyrdd newydd sy'n eu trwytho ynddi, ac wedi manteisio ar y cyfleoedd a roddodd y prosiect i weithio'n unigol ac fel timau. Mae eu sgiliau a'u gwaith caled wedi cael eu cofnodi'n gyhoeddus yn etifeddiaeth y prosiect.

**D 2.3 Cymunedau:**

Dros gyfnod y prosiect rydym wedi cynnwys mwy o bobl ac ystod ehangach o bobl mewn gweithgareddau treftadaeth nag yr oeddem yn credu ei bod yn bosibl cyn inni ddechrau. Mae wedi bod yn braf iawn gweld pobl yn cymryd rhan weithredol yn y prosiect ac mewn digwyddiadau a gweithgareddau grŵp. Mae'r adborth a gasglwyd gennym yn cadarnhau cymaint y mae cynifer o'r rhai a fu'n cymryd rhan yn teimlo eu bod wedi'i ddysgu am eu hardal leol ac am dreftadaeth y Rhyfel Byd Cyntaf yn Aberystwyth drwy ymwneud â'r prosiect, a pha mor werthfawr yn eu barn nhw oedd y cyfle i weld ffynonellau ac adnoddau lleol.

Mae'n anodd mesur effaith y prosiect ar ein heconomi lleol. Ond, mae'r prosiect wedi gwneud cyfraniad penodol ac unigryw at dreftadaeth ddiwylliannol yr ardal; mae cydweithio ag Amgueddfa Ceredigion a Chanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth wedi dod â refeniw i'r sefydliadau hynny; mae un swydd (swydd y PCO) a sawl cyfle am leoliadau gwaith wedi cael eu creu; ac mae gwirfoddolwyr wedi uwchraddio'u sgiliau ac wedi magu hyder a gwybodaeth.

Mae gwaith y prosiect yn archwilio ac yn hybu'n treftadaeth leol gyffredin wedi'i gydnabod gan y cyfryngau lleol ac mae wedi cael sylw mewn digwyddiadau cymunedol fel seremonïau i goffáu canmlwyddiant y Cadoediad, gan ddod â thrigolion lleol o bob cefndir at ei gilydd mewn dealltwriaeth gyffredin ehangach o effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar yr ardal.

Yn olaf, mae'r cydweithio rhwng y gwahanol sefydliadau addysgol, treftadaeth a chymunedol yn yr ardal a hyrwyddwyd gan y prosiect wedi bod yn un o'i lwyddiannau allweddol, gan ddangos y ffordd i gyfuno adnoddau addysgol ac adnodau treftadaeth lleol yn

fwy effeithiol a mwy o ymgysylltu ar y cyd ym maes dysgu am dreftadaeth a meithrin gallu yn y dyfodol.

**D 3: Tystebau gan y gwirfoddolwyr**

Hoffem ddod â'r adroddiad hwn i ben drwy ddyfynnu rhagor o'r adborth a gafwyd gan ein gwirfoddolwyr yn ystod y prosiect:

> "I carried out research in The National Library of Wales. I worked with four volumes of press cuttings collected by a brother and sister throughout the war. It was immensely enjoyable, especially building up a collection of cuttings from local papers to write pieces for the blog. It required a lot of careful searching. The library staff were very helpful. The pleasure of finding out lots of interesting information that I would never have thought of researching if it had not been for the project. I enjoyed putting the pieces of information together often from lots of different articles to form a coherent piece. The National Library was a fantastic place to work in and that was a new experience for me which has led me to have a whole new appreciation of its resources, even though I only used a few of them in my research. I also found that friends were very interested in what I was finding out and asked me about it." FF
>
> "I learnt a significant amount regarding Aberystwyth's experiences of the Great War in relation to soldier's experiences and the situation on the Homefront via newspapers such as the Cambrian News. While much of this research was my own, the Aberystwyth at War project as well as Siân Nicholas made it quick and simple for me to decide a project to research on." OS
>
> "Not just an information about the war itself but the most lovely thing is knowing about the quality of life at Aberystwyth at that hard time, see the effect of the war on the people, feel them, imagine their situation, and how the war changed their thinking and their behaviour. I did research about YMCA which was very useful and supportive to the soldiers and how the war encouraged the people in Aberystwyth to establish it. I read the letters written by Aber. men serving abroad in acknowledgment of parcels they received from the people of Aberystwyth. Just reading all of these lovely feelings toward Aberystwyth and her people and the support of Aber. people to their family and friends serving abroad was amusing and touchable." RR
>
> "Thoroughly enjoyed everything I did. Working with Kate, and the other project volunteers; Increased knowledge of home town in the War years; Opportunities to get to know local archives and resources eg NLW online newspapers, town library; Dressing up as WW1 Red Cross nurse and leading guided walks round home town; Attending project meetings to find out what other volunteers were doing; Attending study skills and archive meetings to meet experts who were willing to help us. Stimulating dormant research skills (academic background in handwritten manuscripts); Developing research skills by getting acquainted with local resources and experts; Feeling I was giving something back in return for all my education at Aberystwyth University 70s-90s and current study, and to my home town; Ideas for future academic research and writing (academic and personal); Developing even deeper links with home town, eg November Memorial services and British Legion concerts have deeper significance now that actual people are known about and their

> experience publicly acknowledged; Meeting like-minded people with shared interests” LB

> “Pleser o'r mwyaf oedd cael weithio ar y prosiect. Cyfle i ddysgu llawer mwy am hanes Aberystwyth yn ystod y Rhyfel 1af, ond ar yr un pryd cwrdd â phobl newydd, a dysgu sgiliau ymchwil newydd.Syniad da oedd canolbwyntio ar fanion hanes y dre yn ystod y rhyfel, yn hytrach na straeon cyfarwydd y bobl a aeth i ffwrdd ac a fu farw. Dysgais lawer wrth wneud ymchwil ar gyfer blog y prosiect - am y bobl (plant yn arbennig) a oedd yn casglu wyau ar gyfer milwyr yn yr ysbyty. Hefyd am yr ymgyrch i godi arian i dalu am y rhyfel - a darganfod bu Aberystwyth y dre fwyaf hael yn yr Ymerodraeth! Fe fynychais nifer o'r digwyddiadau a drefnwyd gan y tîm - y noson ffilmiau oedd rhywbeth i'w gofio. Gofynnodd y trefnwyr i mi arwain teithiau tywys o gwmpas y dre hefyd - pleser mawr arall.” NC

Yn olaf, Alice Sargent, un o’r rhai a gafodd fwrsariaeth o Gronfa Prifysgol Aberystwyth yn haf 2019. Mae ei hadborth ysgrifenedig yn lleisio’r adborth anffurfiol a gawsom gan gynifer o’n gwirfoddolwyr, o’r gymuned leol a’r tu hwnt, dros oes y prosiect cyfan:

> “Completing this two-week work placement with the ‘Aberystwyth at War 1914-1919’ HLF-funded project has been an exciting opportunity which has undoubtedly advanced my research skills and historical knowledge. When I first applied for the position, I anticipated that I would be sitting in an office for the duration, trawling through records to discover more about Aberystwyth’s soldiers in the Great War; instead, I was able to do so much more than this! Some days, I was out exploring Ceredigion Archives for relevant primary records, whilst on others I was walking around Aberystwyth trying to identify specific houses where soldiers lived. It was brilliant! I really felt the past come to life, as I knew that I was standing in front of a house where somebody had lived before leaving the close-knit community of Aberystwyth to fight in a horrific war of unprecedented scale. The whole project has added a new dimension to my thinking when I walk around Aberystwyth. Not only did the project offer me this sense of vibrant historical reality, but it also enhanced my research skills and awakened my ‘inner genealogist’. I learnt how to access primary materials and cross-reference the details of individuals to ensure that my new data was accurate. Being able to research my own specific interests and produce a blog contribution on it was also spectacular. Discovering an article in the Cambrian News about an ‘Aberystwyth Soldier Family’ who had four men fight in the war really inspired me, and I was able to trace their journeys and lives through records from Britain and Australia. This was something I had never done before, so at times it was very challenging, but I succeeded in putting together a mostly-flowing story of one family’s struggle, grief, and recovery from the Great War. Overall, working for this project has been an invaluable experience and one which may influence my future career path. I’ve enjoyed every bit of it – the only thing I would change is that I could work longer for the project!”